Cefnogi etholiad
Senedd Ewrop
ym Mhrydain Fawr

The
Electoral
Commission

Llawlyfr ar gyfer staff gorsaf bleidleisio

4 Mehefin 2009

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth am gael y cyhoeddiad
hwn mewn iaith arall neu mewn
fersiwn print bras neu Braille,
cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Llawlyfr ar gyfer staff gorsaf bleidleisio

Hawlfraint © Y Comisiwn Etholiadol 2009

Cynnwys

1 Cyflwyniad 1

2 Tîm yr etholiad a'r orsaf bleidleisio 2
Etholiadau i Senedd Ewrop 2
Rolau a chyfrifoldebau tîm yr orsaf bleidleisio 2
Dyletswyddau'r Swyddog Llywyddu 2
Dyletswyddau'r Clerc Pleidleisio 3

3 Cyn y diwrnod pleidleisio 4
Hyfforddiant ar gyfer staff gorsaf bleidleisio 4
Lleoli'r orsaf bleidleisio 4
Cysylltu ag aelodau eraill y tîm 5
Cludo neu gasglu blwch/blychau pleidleisio 5

4 Diwrnod pleidleisio: cyn i'r pleidleisio ddechrau 6
Cyrraedd yr orsaf bleidleisio 6
Beth sy'n digwydd os na fydd daliwr yr allweddi'n bresennol? 6
Gwirio cyflenwadau a deunyddiau 6
Safonau ymddangosiad 7
Gosodiad yr orsaf bleidleisio 7
Arwyddion a hysbysiadau 8
Pwy all fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio? 8
Selio'r blwch/blychau pleidleisio 11
Rhai gwiriadau munud olaf 11

5 Diwrnod pleidleisio: agor a chynnal y pleidleisio 12
Agor yr orsaf bleidleisio 12
Crynodeb o'r drefn bleidleisio 12
Cam un – gwirio'r pleidleisiwr 13
Cam dau – cyhoeddi'r papur pleidleisio 14
Cam tri – pleidleisio 15
Cynnal a chadw'r man pleidleisio 16
Pleidleisiau post 17
Tystysgrifau cyflogaeth 17

6 Diwedd y pleidleisio 18
Trefniadau 18
Cwblhau'r gwaith papur 18
Y cyfrif papurau pleidleisio 19
Gweddill y gwaith papur 19
Deunydd pacio yn yr orsaf bleidleisio 20
Cludo deunydd etholiadol i'r ganolfan gyfrif 20

Atodiadau

Atodiad 1 21
Materion cydraddoldeb

Atodiad 2 25
Delio gyda phroblemau ar y gofrestr etholwyr

Atodiad 3 28
Y drefn ar gyfer pleidleiswyr post a thrwy ddirprwy

Atodiad 4 32
Trefniadau pleidleisio arbennig

Atodiad 5 36
Pleidleiswyr gyda chofnod dienw ar y gofrestr

Atodiad 6a 37
Y cwestiynau rhagnodedig

Atodiad 6b 41
Papurau pleidleisio a gyflwynwyd

Atodiad 7 43
Diogelwch yn yr orsaf bleidleisio

Atodiad 8 45
Cyfarwyddyd am rifwyr, y y cyfryngau a phôl ymadael

Atodiad 9 47
Iechyd a diogelwch

Atodiad 10 48
Cwestiynau cyffredin i staff gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio

Atodiad 11 51
System ar gyfer ethol Aelodau Senedd Ewrop

Atodiad 12 53
Rhestr sefydlu gorsaf bleidleisio

1 Cyflwyniad

Mae'r llawlyfr hwn wedi'i gynllunio i gynorthwyo staff gorsafoedd pleidleisio sy'n gweithio yn etholiadau Senedd Ewrop. Mae'n disgrifio'r trefniadau i'w dilyn a sut i ddelio gydag unrhyw faterion a allai godi.

Dylai holl staff yr orsaf bleidleisio ddarllen y cynnwys yn ofalus cyn y diwrnod pleidleisio.

Cyfeirir at y Swyddog Canlyniadau Lleol drwy gydol y llawlyfr hwn. Gwneir hyn gan fod y rhan fwyaf o drefniadau sy'n ymwneud â gweithrediad y pleidleisio mewn etholiad Senedd Ewrop yn rhan o gyfrifoldebau cyfreithiol y Swyddog Canlyniadau Lleol. Yn ymarferol, fodd bynnag, tîm etholiad y Swyddog Canlyniadau Lleol fydd yn ymgymryd â'r gwaith o gynnal yr etholiad o ddydd i ddydd. Bydd staff yr orsaf bleidleisio'n cael manylion cyswllt lleol cyn diwrnod y pleidleisio.

2 Tîm yr etholiad a'r orsaf bleidleisio

Etholiadau i Senedd Ewrop

Caiff etholiadau i Senedd Ewrop eu cynnal yn rhanbarthol. I'r perwyl hwn, mae'r DU wedi'i rhannu'n 12 rhanbarth etholiadol Senedd Ewrop: mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn creu un rhanbarth etholiadol yr un, ac mae Lloegr wedi'i rhannu'n naw rhanbarth. Y rhanbarthau hyn yw: Dwyrain y Canolbarth, Dwyrain Lloegr, Llundain, Gogledd Ddwyrain, Gogledd Orllewin, De Ddwyrain, De Orllewin, Gorllewin y Canolbarth a Swydd Efrog a Humber.

Ar hyn o bryd, mae gan y DU hawl i ddychwelyd 72 Aelod o Senedd Ewrop (ASEau). Mae nifer yr ASEau a gaiff eu dyrannu i bob rhanbarth etholiadol yn dibynnu ar nifer y pleidleiswyr yn y rhanbarth etholiadol hwnnw.

Bydd pleidleiswyr yn ethol eu cynrychiolwyr drwy gyfrwng cynrychiolaeth gyfrannol.

Enghraifft o bapur pleidleisio etholiad Senedd Ewrop

Etholiad ar gyfer Rhanbarth Senedd Ewrop y Gogledd Orllewin

Pleidleisiwch unwaith (x) mewn un blwch gwag

1	**Plaid Blog** 1. Arthur John Briggs 2. Edith Pickering 3. David Hamish Scott 4. Brahim Malik 5. Douglas Alexander Chapman 6. Christopher Paul Harrington 7. Derek Holloway-Jones 8. Russel Montgomery Johnstone 9. Anita Patel 10. Sheila Hammond-Armstrong	
2	**Plaid Pawb** 1. James Edward Wellingborough 2. Kathleen Mary Ferrier 3. Mary Jean Chandler 4. Frank Probert 5. Samuel James Winstanley 6. William Anderton 7. Paul Alfred Mackenzie 8. Kathleen Siobhan Murphy 9. Maximus Paul Alexander 10. Phillip Paul Holand	
3	**Y Blaid Biws** 1. Eileen Iris Alsop 2. Indira Anitia Gupta 3. Robery Henry Anderton 4. Victor Daniel Amos 5. Annabelle Susannah Riley-Bowles 6. Andrew Wilson 7. Harry Townsend 8. Eric Harvey Williamson 9. Monica Christine Merekson 10. Gareth Arthur Jones	
4	**Manmeet Singh** Annibynnol	

Un bleidlais sydd gan bob pleidleisiwr, a gall ei defnyddio i bleidleisio am blaid (a'i rhestr o ymgeiswyr) neu am ymgeisydd unigol. Dylai'r etholwyr farcio eu papur pleidleisio gyda chroes yn y blwch i'r dde o enw'r blaid neu'r ymgeisydd unigol y maent yn dymuno pleidleisio drostynt. Ni allant ddewis un ymgeisydd oddi ar restr plaid.

Os byddant yn pleidleisio am fwy nag un blaid, neu ymgeisydd unigol, ni fydd eu papur pleidleisio'n cael ei gyfrif.

Am fanylion am sut y bydd seddi'n cael eu dyrannu yn etholiadau Senedd Ewrop, edrychwch ar Atodiad 11.

Rolau a chyfrifoldebau tîm yr orsaf bleidleisio

Rôl staff yr orsaf bleidleisio yw sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu bwrw eu pleidlais yn gyfrinachol, yn rhydd o unrhyw ddylanwad ac mewn awyrgylch tawel.

Dyletswyddau'r Swyddog Llywyddu

Mae Swyddogion Llywyddu'n gyfrifol am weithrediad y bleidlais yn yr orsaf bleidleisio a rhaid iddynt fod â gwybodaeth drylwyr am y trefniadau pleidleisio.

Prif ddyletswyddau'r Swyddog Llywyddu yw:

- cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau Lleol
- sicrhau cyfrinachedd a diogelwch y pleidleisio
- trefnu gosodiad yr orsaf bleidleisio a chysylltu â daliwr allweddi'r adeilad os bydd angen

- cyfarwyddo a goruchwylio gwaith y Clercod Pleidleisio
- agor a chau'r orsaf bleidleisio ar amser
- cadw trefn yn yr orsaf bleidleisio
- bod yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth ddelio gyda phleidleiswyr, ymgeiswyr ac asiantiaid ac eraill sydd â hawl i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio
- gweithredu'n ddiduedd drwy'r adeg
- cofnodi a bod yn gyfrifol am yr holl bapurau pleidleisio, gwaith papur a blychau pleidleisio
- gofyn y cwestiynau rhagnodedig i bleidleiswyr pan fo'n angenrheidiol, gan gynnwys pan ofynnir iddynt wneud hynny gan ymgeiswyr neu asiantiaid neu cyn cyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd
- sicrhau y dilynir y drefn gywir ar gyfer pleidleisio, gan sicrhau bod y rhestr o rifau cyfatebol yn cael ei marcio'n briodol
- sicrhau bod pob papur pleidleisio a gyhoeddir ganddynt hwy neu eu clerc pleidleisio yn cynnwys nod swyddogol ac y caiff ei gyhoeddi'n gywir i bleidleiswyr cymwys
- delio gyda threfniadau pleidleisio arbennig fel bo'r angen
- derbyn unrhyw bleidleisiau post a gyflwynir gan bleidleiswyr
- rheoli presenoldeb y rhai sydd â hawl i fod mewn gorsafoedd pleidleisio e.e. ymgeiswyr ac asiantiaid, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig, a sicrhau nad ydynt yn amharu ar y broses bleidleisio
- monitro gweithgaredd y rhifwyr y tu allan i'r mannau pleidleisio a sicrhau nad ydynt yn tarfu ar y broses bleidleisio
- cadw'r orsaf bleidleisio'n dwt a thaclus
- sicrhau bod pob arwydd a hysbysiad yn glir, yn weladwy ac yn aros yn ei le drwy gydol y dydd

Os bydd mwy nag un orsaf bleidleisio mewn adeilad, gall y Swyddog Canlyniadau Lleol neu staff yr etholiad ofyn i un o'r Swyddogion Llywyddu gymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros y man pleidleisio.

Dyletswyddau'r Clerc Pleidleisio

Nid oes gan Glercod Pleidleisio'r un cyfrifoldebau â Swyddogion Llywyddu, ond rhaid iddynt wybod yr holl drefniadau pleidleisio a sut i ddelio gydag unrhyw broblemau.

Prif ddyletswyddau'r Clerc Pleidleisio yw:

- cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau Lleol a'r Swyddog Llywyddu
- cynorthwyo gyda gosod yr orsaf bleidleisio allan a pharatoi ar gyfer dechrau pleidleisio
- bod yn gwrtais ac yn broffesiynol wrth ddelio gyda phleidleiswyr, ymgeiswyr ac asiantiaid, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig
- gweithredu'n ddiduedd drwy'r adeg
- sicrhau bod gan etholwyr hawl i bleidleisio yn yr etholiad hwn ac yn yr orsaf bleidleisio hon
- gwirio a marcio rhif yr etholwyr yn y gofrestr etholwyr
- ysgrifennu rhif yr etholwr gyferbyn â rhif y papur pleidleisio a gyhoeddir yn y rhestr rhif cyfatebol
- cyhoeddi papurau pleidleisio i bleidleiswyr dan gyfarwyddyd y Swyddog Llywyddu, gan sicrhau eu bod yn cynnwys y nod swyddogol
- sicrhau bod etholwyr yn bwrw eu pleidlais yn gyfrinachol
- cynnal cyfrinachedd y pleidleisio bob amser
- ateb cwestiynau'r etholwyr, lle bo'n briodol, mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol
- helpu gydag unrhyw ddyletswyddau eraill yn yr orsaf bleidleisio dan gyfarwyddyd y Swyddog Llywyddu
- cynorthwyo'r Swyddog Llywyddu i gwblhau gweithdrefnau angenrheidiol ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben

3 Cyn y diwrnod pleidleisio

Hyfforddiant ar gyfer staff gorsaf bleidleisio

Bydd angen i staff gorsaf bleidleisio gael eu briffio'n llawn am yr etholiad ac ni allant ddibynnu ar brofiad blaenorol yn unig. Ni ddylai staff gorsaf bleidleisio ddibynnu ychwaith ar y llawlyfr hwn yn unig. Bydd Swyddogion Canlyniadau Lleol yn trefnu sesiynau hyfforddi neu friffio rheolaidd a byddant yn disgwyl i staff yr orsaf bleidleisio fynychu.

Lleoli'r orsaf bleidleisio

Caiff Swyddogion Canlyniadau Lleol eu penodi i gynnal yr etholiad mewn ardal gyfrif leol ar gyfer Senedd Ewrop. Nhw fydd yn penderfynu sawl gorsaf bleidleisio fydd eu hangen, ble y dylid eu lleoli a sawl Swyddog Llywyddu a Chlerc Pleidleisio fydd eu hangen i'w staffio.

Ni ddylid cymryd y bydd yr orsaf bleidleisio yn yr un lle ag y bu ar gyfer etholiadau blaenorol. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn rhoi gwybodaeth am leoliad yr orsaf bleidleisio wrth wneud penodiadau. Dylai holl aelodau tîm yr orsaf bleidleisio wybod lleoliad yr orsaf bleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio.

Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol ofyn i'r Swyddog Llywyddu ymweld â gorsaf bleidleisio cyn diwrnod y pleidleisio. Yn yr achosion hyn, dylent drefnu amser gyda daliwr yr allweddi sy'n gyfleus i bawb. Dylai mynediad i'r orsaf bleidleisio cyn diwrnod y pleidleisio fod gyda chaniatâd daliwr yr allweddi bob amser. Dylech fod yn ymwybodol o faterion o sensitifrwydd o ran ymweld ag adeiladau awdurdod lleol yn ystod oriau gwaith (yn enwedig sefydliadau addysg a gofal cymdeithasol).

Efallai y bydd rhai adeiladau'n cynnwys dwy orsaf bleidleisio neu fwy. Os felly, dylai Swyddogion Llywyddu, dan gyfarwyddyd y tîm gwasanaethau etholiadol, gydlynu unrhyw ymweliadau ag adeilad cyn diwrnod y pleidleisio gyda'r Swyddogion Llywyddu eraill. Bydd y daliwr allweddi'n gwerthfawrogi hyn a bydd yn galluogi cydweithwyr i drafod mynedfa, allanfa a gosodiad pob gorsaf bleidleisio. Os yn bosibl, gallai hefyd fod yn ddefnyddiol cyfarfod ag aelodau eraill y tîm yn yr orsaf bleidleisio cyn diwrnod y pleidleisio er mwyn gweld pa gyfleusterau sydd ar gael ac i drafod pa adnoddau a lluniaeth fydd eu hangen.

Dylai'r daliwr allweddi agor yr adeilad ddim hwyrach na 6.30am ar y diwrnod pleidleisio. Os nad yw'r unigolyn priodol ar gael i agor yr adeilad, dylai Swyddogion Llywyddu wneud trefniadau i gasglu'r allweddi cyn diwrnod y pleidleisio. Yn yr achos hwn, dylai Swyddogion Llywyddu sicrhau bod yr holl allweddi perthnasol ganddynt, gan gynnwys allweddi unrhyw gatiau, a sicrhau bod rhif ffôn a chyfeiriad daliwr yr allweddi ar gael pe bai rhywbeth yn mynd o'i le.

Dylai staff yr orsaf bleidleisio ystyried faint o amser y bydd yn ei gymryd i gyrraedd yr orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio a chynnwys hyn yn eu cynlluniau ar gyfer y diwrnod. Bydd cyrraedd mewn da bryd yn galluogi staff i sicrhau bod yr orsaf wedi'i gosod yn gywir cyn i'r pleidleisio ddechrau am 7am.

Dylai staff yr orsaf bleidleisio sicrhau eu bod yn mynd â digon o fwyd a diod gyda nhw i bara am y diwrnod cyfan, gan na fyddant yn gallu gadael y man pleidleisio tra bydd y cyfnod pleidleisio yn mynd rhagddo.

Cysylltu ag aelodau eraill y tîm

Gall Swyddogion Canlyniadau Lleol roi manylion cyswllt unrhyw Glerc(od) Pleidleisio sydd ar ddyletswydd yn yr un orsaf bleidleisio i'r Swyddog Llywyddu.

Yn yr achos hwn, dylai'r Swyddog Llywyddu gysylltu â'r Clerc(od) Pleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio i sicrhau eu bod yn gwybod lleoliad yr orsaf a pha amser i gyrraedd yno.

Cludo neu gasglu blwch/blychau pleidleisio

Oni bai bod y blychau pleidleisio'n cael eu cludo'n uniongyrchol i'r orsaf bleidleisio, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn rhoi gwybod i Swyddogion Llywyddu am y trefniadau ar gyfer casglu'r blychau pleidleisio, ynghyd â phob deunydd etholiadol perthnasol. Os yw'r blychau pleidleisio a'r deunydd etholiadol am gael eu casglu gan y Swyddog Llywyddu, ac yna eu cadw yng nghartref y Swyddog Llywyddu, rhaid cymryd pob gofal i sicrhau eu diogelwch bob amser. Yn benodol, ni ddylid gadael unrhyw ddeunydd etholiadol mewn car.

4 Diwrnod pleidleisio: cyn i'r pleidleisio ddechrau

Yr oriau pleidleisio yw rhwng 7am a 10pm.

Cyrraedd yr orsaf bleidleisio

Rhaid i Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio gyrraedd yr orsaf bleidleisio erbyn 6.30am. Gwnewch yn siŵr fod digon o amser yn cael ei ganiatáu i gyrraedd yr orsaf - peidiwch â bod yn hwyr. Os bydd staff yr orsaf yn cael eu dal yn ôl yn anorfod neu'n methu mynychu'r orsaf bleidleisio, rhaid iddynt gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar unwaith.

Rhaid i Swyddogion Llywyddu wirio pob oriawr a chloc a sicrhau bod yr orsaf bleidleisio'n agor ar amser.

Dylai Swyddogion Llywyddu gasglu hysbysiad penodiad y Clerc Pleidleisio a sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r gofynion cyfrinachedd.

Beth sy'n digwydd os na fydd daliwr yr allweddi'n bresennol?

Yn gyntaf, ceisiwch gysylltu ag ef, naill ai dros y ffôn neu drwy anfon aelod o dîm yr orsaf bleidleisio i'w gartref. Os na ellir cael mynediad, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau Lleol i'w hysbysu am y sefyllfa ac i gael cyfarwyddiadau pellach. Os bydd angen, sefydlwch orsaf bleidleisio dros dro. Efallai y bydd digon o le ym mynedfa'r adeilad, neu hyd yn oed y tu allan. Mewn rhai achosion, mae Swyddogion Llywyddu wedi defnyddio cefn eu ceir. Beth bynnag fo'r sefyllfa, rhaid i etholwyr allu bwrw eu pleidlais yn gyfrinachol o 7am ymlaen.

Rhowch wybod i unrhyw asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol am ba bynnag drefniadau y byddwch yn eu gwneud.

Gwirio cyflenwadau a deunyddiau

Oni bai bod y Swyddog Canlyniadau Lleol yn eu danfon yn uniongyrchol i'r orsaf bleidleisio, bydd y Swyddog Llywyddu'n gyfrifol am gludo'r blychau pleidleisio a'r deunydd etholiadol. Fel arfer, bydd yr eitemau mwyaf, fel y bythau pleidleisio, wedi cael eu cludo yno ymlaen llaw. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cynghori'r Swyddogion Llywyddu am y trefniadau.

Bydd rhestr wirio o gyflenwadau gorsaf bleidleisio'n cael ei darparu gyda'r blychau pleidleisio a deunyddiau eraill yr orsaf bleidleisio. Os bydd unrhyw offer neu ddeunyddiau a restrir ar y rhestr stoc ar goll wrth wirio'r cynnwys, dylid cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar unwaith. Dylid gwirio deunyddiau wrth eu derbyn. Dylid cymryd gofal wrth godi deunyddiau neu offer; gallant fod yn drwm (gweler Atodiad 9 am wybodaeth am iechyd a diogelwch).

Dylai'r Swyddog Llywyddu wirio bod y papurau pleidleisio y rhai cywir ar gyfer y rhanbarth etholiadol ac nad oes unrhyw gamgymeriadau amlwg yn rhifau'r papurau. Os bydd datganiad o ymgeiswyr unigol a phleidiau a enwebwyd wedi cael ei ddarparu gan y Swyddog Canlyniadau Lleol, dylai'r Swyddog Llywyddu hefyd wirio bod enwau'r ymgeiswyr ar y papurau pleidleisio'n cyd-fynd â'r enwau ar y datganiad.

Dylid gwirio'r rhifau ar gefn y papurau pleidleisio yn erbyn y rhifau papurau pleidleisio a argraffwyd ar y rhestr rhif cyfatebol. Dylid gwirio hyn cyn i'r pleidleisio ddechrau. Dylid cyhoeddi'r papurau pleidleisio yn yr un drefn ag yr argraffwyd hwy ar y rhestr rhif cyfatebol. Os na fydd y rhifau'n cyfateb, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar unwaith. Peidiwch â chyhoeddi papurau pleidleisio os bydd camgymeriadau arnynt neu os bydd yr argraffu'n aneglur.

Safonau ymddangosiad

Dylai'r awyrgylch mewn gorsaf bleidleisio fod yn broffesiynol ac yn gyfeillgar, a dylai staff yr orsaf bleidleisio wisgo'n addas. Fodd bynnag, bydd y staff yn yr orsaf bleidleisio drwy'r dydd, felly dylent ystyried eu cysur personol.

Cofiwch fod staff gorsafoedd pleidleisio'n cynrychioli'r Swyddog Canlyniadau Lleol, ac y dylent weithredu'n amhleidiol bob amser. Ni ddylid gwisgo unrhyw fathodynnau, sloganau na lliwiau a allai godi amheuaeth am amhleidioldeb y staff.

Gosodiad yr orsaf bleidleisio

Y peth cyntaf i'w wneud wedi cyrraedd fydd gosod yr orsaf bleidleisio, oni bai bod hyn eisoes wedi'i wneud ar eich cyfer. Mae gosodiad yr ystafell yn bwysig. Gallai gosodiad gwael achosi dryswch diangen ac anawsterau mynediad.

Efallai bydd gofalwyr eisoes wedi gosod yr ystafell, yn enwedig os bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol neu'r Swyddog Llywyddu wedi rhoi cyfarwyddiadau iddynt ymlaen llaw am osodiad yr orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhaid i staff yr orsaf bleidleisio osod yr ystafell neu aildrefnu'r dodrefn. Mae rhai bythau pleidleisio'n drwm iawn; dylid bod yn ofalus wrth eu codi neu eu symud (gweler Atodiad 9 am gyngor am faterion iechyd a diogelwch).

Rhoddir enghreifftiau isod o osodiad ystafell, pan fydd un orsaf bleidleisio yn yr ystafell ac os bydd mwy nag un orsaf bleidleisio yn yr ystafell. Dangosir y rhain fel canllaw ac efallai bydd angen eu haddasu i gwrdd ag amodau lleol.

Dylid trefnu'r blwch pleidleisio a'r bythau pleidleisio i sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu cael mynediad iddynt, ond eu bod hefyd yn gwbl weladwy i staff yr orsaf bleidleisio.

Dylai Swyddogion Llywyddu leoli eu hunain a'r blwch pleidleisio mewn modd sy'n atal unrhyw etholwr rhag gadael yr orsaf bleidleisio heb orfod eu pasio.

Enghraifft o gynllun ar gyfer un orsaf bleidleisio



Rhaid i'r gosodiad weithio i'r pleidleiswyr, yn ogystal â staff yr orsaf bleidleisio. Yn benodol, rhaid ystyried anghenion pleidleiswyr ag amrywiaeth o anableddau. Er enghraifft:

- A yw'r blwch pleidleisio yn hygyrch i bob pleidleisiwr?
- A all defnyddiwr cadair olwyn fynd o amgylch yr orsaf bleidleisio a'i chyffiniau?
- A yw'r bwth pleidleisio lefel isel yn y safle mwyaf addas ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn?
- A yw'r hysbysiadau'n ddigon amlwg i bawb eu gweld?
- A yw'r bythau pleidleisio wedi'u lleoli i wneud y defnydd gorau o'r golau sydd ar gael?
- A yw'r asiantiaid pleidleisio a'r arsylwyr yn sefyll mewn man lle na fyddant yn tarfu ar drefn y dydd, ond yn gallu arsylwi popeth o hyd?

Rhoddir rhestr wirio, yn cwmpasu amrediad o faterion mynediad, yn Atodiad 12.

Ym mhob achos, dylech wneud yn siŵr nad yw bythau pleidleisio'n cael eu gosod mewn modd sy'n caniatáu i bobl o'r tu allan weld sut y bydd etholwyr yn marcio eu papur pleidleisio.

Cofiwch fod rhaid cadw'r blychau pleidleisio ar wahân mewn ystafell lle mae mwy nag un orsaf bleidleisio. Fel arall, gallai pleidleiswyr mewn un orsaf wneud y camgymeriad o roi eu papur pleidleisio yn y blwch anghywir, ac ni fydd y cyfrifon papurau pleidleisio ar gyfer y ddwy orsaf bleidleisio yn cyfateb. Hyd yn oed os bydd y blychau pleidleisio'n cael eu cadw ar wahân, dylai staff gadw golwg arnynt, gan fod posibl o hyd i bleidleiswyr ddrysu ynghylch pa flwch y dylent ei ddefnyddio.

Enghraifft o gynllun ar gyfer gorsaf bleidleisio ddwbwl



Arwyddion a hysbysiadau

Meddyliwch beth yw pwrpas pob arwydd a hysbysiad wrth ei roi i fyny. Cerddwch y daith y mae disgwyl i'r etholwr ei chymryd, gan wirio pob arwydd a hysbysiad. Mae rhai arwyddion a hysbysiadau'n rhai cyfeiriadol, ac eraill yn rhoi gwybodaeth i etholwyr. Dylech sicrhau eu bod wedi'u lleoli fel bod modd i'r pleidleiswyr, gan gynnwys pobl mewn cadeiriau olwyn, eu darllen.

Dylid arddangos yr hysbysiad 'Arweiniad i bleidleiswyr' y tu allan a'r tu mewn i'r orsaf bleidleisio. Os bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol wedi darparu hysbysiad o'r fath mewn Braille, mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg neu Gymraeg, neu ar ffurf lluniau, dylid arddangos y rhain y tu allan a'r tu mewn i'r orsaf bleidleisio hefyd.

Yr unig arwydd i gael ei ddangos yn y bwth pleidleisio yw'r un sy'n cynnig gwybodaeth am sut i bleidleisio: Bydd hwn yn dweud:

'Rhowch un groes yn unig ar y papur pleidleisio. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio, neu mae posibl na fydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif.'

Os bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol wedi darparu unrhyw hysbysiadau o'r fath mewn ieithoedd a ffurfiau amgen, e.e. Braille, mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg neu ar ffurf lluniau, dylid arddangos y rhain hefyd y tu mewn i'r bythau pleidleisio.

Rhaid arddangos copi sampl mawr o'r papur pleidleisio y tu mewn i'r orsaf bleidleisio, yn ddelfrydol mewn lleoliad wedi'i oleuo'n dda lle gall yr etholwyr ei weld yn rhwydd cyn cael eu papurau pleidleisio.

Bydd copi llaw mwy o'r papur pleidleisio hefyd yn cael ei ddarparu gan y Swyddog Canlyniadau Lleol, wedi'i farcio â 'sampl'. Gellir rhoi hwn i etholwyr sydd â nam ar eu golwg i fynd gyda nhw i'r bwth pleidleisio er mwyn cyfeirio ato wrth farcio eu papur pleidleisio.

Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw bosteri pleidiau, na deunyddiau eraill, y gellir ystyried eu bod yn cefnogi barn unrhyw blaid neu ymgeisydd sy'n sefyll yn yr etholiad, ar ddangos yn yr orsaf neu ar y safle. Os bydd deunyddiau o'r fath yn cael eu canfod, dylid eu tynnu i lawr neu eu gorchuddio.

Pwy all fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio?

Mae'r ddeddf yn nodi'n bendant pwy all fod yn bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio (yn ogystal â staff pleidleisio a'r pleidleiswyr). Y rhain yw:

- y Swyddog Canlyniadau Lleol a'i staff
- ymgeiswyr unigol ac ar restr plaid, asiantiaid etholiad (gan gynnwys is-asiantiaid) ac asiantiaid pleidleisio
- swyddogion yr heddlu sydd ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio
- cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig
- unigolion dan 18 oed sy'n dod gyda phleidleiswyr
- cymdeithion pleidleiswyr ag anableddau

Y Swyddog Canlyniadau Lleol a'i staff

Gall Swyddogion Canlyniadau Lleol a'u staff ymweld yn ystod y diwrnod. Gall hyn fod i gyflawni dyletswyddau fel dosbarthu offer ychwanegol, cynnal archwiliad o'r orsaf bleidleisio neu gasglu papurau pleidleisio drwy'r post a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio gan bleidleiswyr.

Ymgeiswyr, asiantiaid etholiad, is-asiantiaid ac asiantiaid pleidleisio

Mae gan ymgeiswyr unigol, ac ymgeiswyr ar restr plaid, asiantiaid etholiad ac is-asiantiaid, yr hawl i fynd i mewn ac aros mewn gorsaf bleidleisio, ond ni ddylent darfu ar y pleidleisio na cheisio canfasio pleidleiswyr.

Gall pleidiau gwleidyddol cofrestredig ac ymgeiswyr unigol benodi asiant pleidleisio i weithio ar eu rhan mewn gorsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad. Mae gan asiantiaid pleidleisio'r hawl i fynd i mewn ac aros mewn gorsaf bleidleisio ac arsylwi'r pleidleisio. Prif bwrpas eu penodiad yw darganfod cam-bersonadu - hynny yw, pobl yn pleidleisio'n anghyfreithlon yn enw etholwr arall. Ni ellir gadael mwy nag un asiant pleidleisio i mewn i orsaf bleidleisio ar yr un adeg ar ran yr un blaid neu ymgeisydd unigol. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol wedi rhoi gwybod i'r Swyddog Llywyddu ymlaen llaw os bydd unrhyw asiantiaid pleidleisio wedi'u penodi i fod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio.

Bydd asiantiaid pleidleisio'n dymuno nodi ar eu copi eu hunain o'r gofrestr etholwyr pwy sydd wedi pleidleisio, ond ni allant fynd â'r copi hwn wedi'i farcio allan o'r orsaf bleidleisio nes bydd y pleidleisio wedi dod i ben. Ni ddylent darfu ar y broses bleidleisio ac ni ddylent ymgyrchu na chanfasio pleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Os byddant yn gwisgo rhoséd, dylai fod yn un plaen. Mae ganddynt hawl i arsylwi'r gwaith o baratoi ac agor yr orsaf bleidleisio a'i chau, a gallant roi eu sêl ar y blwch pleidleisio ar ddiwedd y pleidleisio (er na allant wneud hynny cyn dechrau'r pleidleisio). Yn ystod yr oriau pleidleisio, dylid gosod yr asiantiaid pleidleisio sy'n bresennol ar fwrdd ar wahân, sy'n ddigon agos i arsylwi a chlywed y trafodion, ond nid mewn lleoliad a fyddai'n cyfaddawdu cyfrinachedd y bleidlais.

Swyddogion yr heddlu ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio

Gall swyddogion yr heddlu fod yn bresennol ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg, er mai dyletswydd y Swyddog Llywyddu yw cadw trefn yn yr orsaf bleidleisio (gweler Atodiad 7 am wybodaeth am ddiogelwch yn yr orsaf bleidleisio). Mewn sawl ardal, mae bellach yn arfer cyffredin darparu cefnogaeth symudol gan yr heddlu mewn gorsafoedd pleidleisio.

Cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac arsylwyr achrededig

Mae gan gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac unigolion eraill a achredwyd drwy gynllun arsylwyr swyddogol y Comisiwn yr hawl i fynychu gweithrediadau'r gorsafoedd pleidleisio. Nid oes rhaid iddynt roi rhybudd ymlaen llaw o ble maent yn bwriadu arsylwi, ond rhaid i bob arsylwr gario cerdyn adnabod ffotograffig ac ni ddylid gadael iddynt arsylwi gweithrediadau heb y cerdyn adnabod hwn (gweler enghreifftiau isod). Gellir gwirio statws unigolion sy'n ceisio dod i mewn i orsafoedd pleidleisio fel arsylwyr gyda'r Swyddog Canlyniadau Lleol.

Enghraifft o gerdyn adnabod a roddir i gynrychiolwyr y Comisiwn (pinc)

Enghraifft o gerdyn adnabod a roddir i arsylwyr achrededig (arian)

Bydd cynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig yn cytuno i gydymffurfio â Chod Ymarfer sy'n cynnwys cytundeb na fyddant yn tarfu ar unrhyw drafodion. Gall Swyddogion Llywyddu ofyn i Arsylwyr (ond nid cynrychiolwyr y Comisiwn) adael yr orsaf bleidleisio, ond dim ond os byddant:

- yn tarfu neu'n ceisio tarfu ar gyfrinachedd y bleidlais
- yn rhwystro'r broses bleidleisio'n fwriadol
- yn gofyn i etholwyr am eu bwriad wrth bleidleisio

Os bydd arsylwr yn cael ei symud o'r orsaf bleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ddarparu nodyn i'r arsylwr yn nodi'r rheswm am ei symud allan o'r orsaf.

Dylai Swyddogion Llywyddu hefyd gofnodi unrhyw ddigwyddiadau o'r fath a hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Lleol cyn gynted â phosibl.

Nid oes gan yr un arsylwyr a symudir yn yr amgylchiadau uchod yr hawl i ddod yn ôl i mewn i'r orsaf bleidleisio am weddill y cyfnod pleidleisio.

Mewn achos o orlenwi, mae gan Swyddogion Llywyddu'r hawl i gyfyngu nifer yr arsylwyr achrededig (ond nid cynrychiolwyr y Comisiwn) sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio am gyfnod penodol - fel 30 neu 60 munud. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes gan unrhyw swyddog yr hawl i wahardd pob arsylwr o'r broses gyfan, dim ond i gyfyngu nifer yr arsylwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg. Pan gymerir camau o'r fath, dylid cofnodi hyn mewn log gorsaf bleidleisio.

Mae arsylwi etholiadau'n rhan gyfreithiol a gwerthfawr o broses yr etholiad, a dylid cymryd gofal i beidio â tharfu na rhwystro gweithrediad yr arsylwi.

Dylai Swyddogion Llywyddu gofnodi manylion unrhyw arsylwyr achrededig neu gynrychiolwyr y Comisiwn sy'n mynychu eu gorsaf bleidleisio.

Unigolion dan 18 oed sy'n dod gyda phleidleiswyr

Gall unigolion dan 18 oed ddod i mewn i'r orsaf bleidleisio gyda phleidleiswyr er mwyn arsylwi'r drefn bleidleisio. Gall Swyddogion Llywyddu gyfyngu nifer yr unigolion dan 18 oed sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg os ydynt yn ystyried bod eu presenoldeb yn tarfu ar y gweithrediadau mewn unrhyw ffordd.

Cymdeithion pleidleiswyr ag anableddau

Gall pobl benodol fynd i mewn gyda phleidleiswyr ag anableddau a'u cynorthwyo i fwrw eu pleidlais. Gweler Atodiad 1 am fanylion pellach, gan gynnwys pa gymorth y gall y Swyddog Llywyddu ei ddarparu.

Selio'r blwch/blychau pleidleisio

Dylai'r Swyddog Llywyddu gau a selio'r blychau pleidleisio ychydig funudau cyn 7am, wedi dangos i bawb sy'n bresennol ei fod yn wag. Os bydd mwy nag un blwch pleidleisio wedi'i gyhoeddi i'r Swyddog Llywyddu (oherwydd nifer y papurau pleidleisio sy'n debygol o gael eu cyhoeddi), rhaid selio pob blwch pleidleisio cyn i'r pleidleisio ddechrau. Fodd bynnag, dim ond un blwch pleidleisio y dylid ei ddefnyddio ar unrhyw adeg, a dylid storio unrhyw flychau pleidleisio ychwanegol yn ddiogel, ac allan o olwg.

Mae cynllun blychau pleidleisio'n amrywio, yn ogystal â'r dull o'u selio. Pa bynnag ddull a ddefnyddir, rhaid gwneud yn siŵr bod y blwch wedi'i gau'n briodol. Ar y cam hwn, ni ddylid gadael i ymgeiswyr, asiantiaid etholiad nac asiantiaid pleidleisio osod eu sêl ar y blwch pleidleisio: dim ond wedi i'r pleidleisio ddod i ben y gallant osod eu sêl.

Blwch pleidleisio wedi'i selio

Rhai gwiriadau munud olaf

Yn union cyn agor yr orsaf bleidleisio, treuliwch ychydig funudau'n sicrhau bod popeth yn barod. Gwnewch yn siŵr bod y papurau pleidleisio, y rhestr rhif cyfatebol, y papurau pleidleisio a gyflwynwyd ac unrhyw ddogfennaeth arall swyddogol yn ddiogel o gyrraedd y pleidleiswyr. Dylid cadw papurau pleidleisio a gyflwynwyd ar wahân er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu cyflwyno mewn camgymeriad. Gellir adnabod papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn hawdd gan eu bod yn lliw gwahanol i'r papur pleidleisio gwreiddiol. Gellir gweld gwybodaeth am yr amgylchiadau ar gyfer cyflwyno papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn Atodiad 6b.

Gellir cyflwyno papurau pleidleisio fel taflen rydd, ond byddant fel arfer yn cael eu darparu ar ffurf llyfryn a gellir eu tynnu allan wrth iddynt gael eu cyflwyno. Os na wnaed hynny'n barod, sicrhewch fod y papurau pleidleisio yn y drefn gywir a bod y rhifau'n cyfateb â'r rhai a argraffwyd ymlaen llaw ar y rhestr rhif cyfatebol. Bydd hyn yn arbed problemau cyfrifo ar ddiwedd y pleidleisio.

Sicrhewch fod y pensiliau pleidleisio wedi'u miniogi a'u bod wedi'u gosod yn ddiogel i'r bwth pleidleisio. Sicrhewch fod y papurau pleidleisio'n cynnwys y marc adnabod unigryw ar eu cefn (gweler enghraifft o gefn papur pleidleisio isod) ac os bydd marc swyddogol wedi'i argraffu ymlaen llaw yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na theclyn stampio, bod hwnnw hefyd yn bresennol.

Enghraifft o gefn papur pleidleisio



Os bydd teclyn stampio'n cael ei ddefnyddio, sicrhewch ei fod yn gweithio.

5 Diwrnod pleidleisio: agor a chynnal y pleidleisio

Agor yr orsaf bleidleisio

Rhaid agor yr orsaf bleideisio am 7am. Peidiwch â bod yn hwyr.

Efallai bydd nifer o etholwyr yn aros i'r orsaf bleidleisio agor. Dylech eu cyfarch a'u gwahodd i mewn cyn gynted ag y bydd yn 7am. Fodd bynnag, ni ddylech roi papurau pleidleisio cyn 7am.

Crynodeb o'r drefn bleidleisio

Ar gyfer y rhan fwyaf o bleidleiswyr sy'n dod i'r orsaf bleidleisio, bydd y broses bleidleisio'n un syml.

Cam un – gwirio'r pleidleisiwr

- Dylech gyfarch yr etholwyr, gofyn iddynt gadarnhau eu henw a'u cyfeiriad, a sicrhau bod ganddynt hawl i bleidleisio.
- Marciwch y gofrestr etholwyr yn erbyn rhif yr etholwr drwy osod llinell syth yn erbyn cofnod yr etholwr ar y gofrestr, ond nid drwyddo.
- Galwch rif ac enw'r etholwr.

Cam dau – cyflwyno'r papurau pleidleisio

- Ysgrifennwch rif yr etholwr (gan gynnwys llythyren /llythrennau cyfeirio'r rhanbarth pleidleisio os na fydd wedi'i argraffu ymlaen llaw) ar y rhestr rhif cyfatebol gyferbyn â rhif y papur pleidleisio i'w gyflwyno.
- Sicrhewch fod y papur pleidleisio naill ai'n cynnwys marc swyddogol wedi'i argraffu ymlaen llaw (e.e. cod bar neu ddyfrnod) neu defnyddiwch y teclyn stampio i stampio (tyllu) y papur pleidleisio â'r marc swyddogol yng nghornel uchaf chwith y papur, fel y bydd yn weladwy ar ddwy ochr y papur.
- Plygwch y papur pleidleisio a'i roi yn nwylo'r pleidleisiwr.

Enghraifft o restr rifau cyfatebol

Rhestr Rhifau Cyfatebol
(i'w defnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio mewn etholiad Senedd Ewrop a gymerir ar ei ben ei hun)

ArdalGyfrif Leol: .....
Dyddiad Pleidleisio: .....
Gorsaf Bleidleisio: .....
Rhif y daflen: .....

Rhif y Papur Pleidleisio	Rhif yr Etholwr
0001	
0002	
0003	
0004	
0005	
0006	
0007	
0008	
0009	
0010	
0011	
0012	
0013	
0014	
0015	
0016	
0017	
0018	
0019	
0020	
0021	

Cam tri – pleidleisio

- Bydd y pleidleisiwr yn marcio'r papur pleidleisio ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio.
- Yn union cyn i'r pleidleisiwr osod y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio, dylai'r Swyddog Llywyddu ofyn i'r pleidleisiwr ddangos rhif y papur pleidleisio a'r marc

- adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio
- Dywedwch ‘hwyl fawr’ a diolch i’r pleidleisiwyr wrth iddynt adael yr orsaf bleidleisio.

Mae atodiadau’r llawlyfr hwn yn dangos beth i’w wneud pan fydd rhywbeth y tu hwnt i’r arferol yn digwydd, er enghraifft, sefydlu hawl i bleidleisio, a delio gyda phleidleiswyr dienw, pleidleiswyr drwy ddirprwy a phleidleiswyr drwy ddirprwy mewn achos o argyfwng. Dylai Swyddogion Llywyddu ddarllen yr adrannau hyn cyn y diwrnod pleidleisio er mwyn bod yn barod.

Cofiwch ddilyn holl gamau’r broses yn ofalus neu fe allai’r pleidleisiwr gael ei ddifreinio’n anfwriadol.

Cam un – gwirio’r pleidleisiwr

Mewn gorsaf bleidleisio gyda Swyddog Llywyddu a dim ond un Clerc Pleidleisio, dylai un person fod yn gyfrifol am y gofrestr etholwyr a’r papurau pleidleisio a dylai’r llall fod yn gyfrifol am sicrhau bod rhif yr etholwr yn cael ei nodi’n gywir ar y rhestr rhif cyfatebol. Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol roi arweiniad am sut y dylid dyrannu’r gwaith hwn, a dylid dilyn hyn wedyn.

Os oes dau Glerc Pleidleisio, gallai’r Swyddog Llywyddu benderfynu goruchwylio’r broses, gan ddelio gyda phleidleiswyr ac unrhyw amgylchiadau arbennig. Yn yr achos hwn, dylai dau Glerc Pleidleisio rannu dyletswyddau a gallant gyfnewid bob hyn a hyn, dan gyfarwyddyd y Swyddog Llywyddu.

Dylai’r staff pleidleisio gyfarch etholwyr wrth iddynt ddod at y bwrdd. Os oes dwy orsaf bleidleisio yn yr ystafell, dylent wneud yn siŵr bod yr etholwyr yn mynd at y bwrdd cywir. Dylai arwyddion gael eu harddangos yn rhestru’r strydoedd neu’r cyfeiriadau ar gyfer pob gorsaf a dylai staff pleidleisio fod ar gael i gynorthwyo etholwyr.

Bydd y rhan fwyaf o etholwyr yn dod â’u cerdyn pleidleisio gyda nhw i’w ddangos i’r Clerc Pleidleisio, er nad yw hyn yn ofynnol i bob etholwr. Cynigiwch y cerdyn pleidleisio hwn yn ôl i’r etholwr; bydd yn ei helpu i roi gwybodaeth i rifwyr y tu allan os dyna yw ei ddymuniad. Os bydd etholwr yn gwrthod y cynnig am y cerdyn pleidleisio, dylai’r Clerc Pleidleisio ei rwygo cyn cael gwared arno mewn man priodol.

Oni bai bod etholwr wedi cofrestru’n ddienw, rhaid i’r Clerc Pleidleisio:

- gadarnhau enw a chyfeiriad yr etholwr a gwirio ei fod ar y gofrestr etholwyr a bod ganddo hawl i bleidleisio
- tynnu llinell syth yn erbyn enw’r etholwr ar y gofrestr etholwyr
- darllen yn uchel enw’r etholwr, ei rif etholwr a chyfeirnod y rhanbarth pleidleisio o’r gofrestr etholwyr (mesur diogelu yn erbyn cam-bersonadu yw hyn)

Dim ond etholwyr sydd wedi cofrestru’n ddienw, a’u dirprwyon, sydd angen cyflwyno eu cerdyn pleidleisio, neu eu cerdyn pleidleisio drwy ddirprwy, er mwyn cael pleidleisio. Mae hyn oherwydd bod etholwyr sydd â chofnod dienw yn cael eu cofrestru heb gyfeiriad at eu henw na’u cyfeiriad er mwyn eu gwarchod rhag niwed. Rhowch y cerdyn pleidleisio yn ôl i unrhyw etholwr o’r fath pan fyddwch chi wedi nodi ei gofnod ar y gofrestr. Am esboniad o’r weithdrefn bleidleisio ar gyfer etholwyr dienw, edrychwch ar Atodiad 4.

Enwau pwy sydd ar y gofrestr etholwyr?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y gofrestr etholwyr yn cynnwys enw pob etholwr a ddyrannwyd i’r orsaf bleidleisio. Efallai bydd rhai etholwyr wedi cofrestru’n ddienw a byddant yn ymddangos heb gyfeiriad at eu henw na’u cyfeiriad. Bydd eu cofnod ar y gofrestr yn cynnwys eu rhif etholwr a’r llythyren ‘**N**’, a byddant i’w gweld ar ddiwedd y gofrestr dan y pennawd ‘etholwyr eraill’.

Ynghyd â’u henw, dim ond eu rhif etholwr a’u cyfeiriad y bydd y rhan fwyaf o etholwyr yn eu nodi. Mae gan yr etholwyr hyn hawl i bleidleisio mewn unrhyw etholiad. Bydd gan rai etholwyr hefyd lythyren neu ddyddiad cyn

eu henw. Mae'r llythrennau hyn yn nodi eu cymhwyster i bleidleisio mewn etholiadau penodol a bydd y dyddiad yn nodi pryd y byddant yn cyrraedd oed pleidleisio.

Pwy all bleidleisio mewn etholiad Senedd Ewrop?

- Etholwyr heb unrhyw lythyren neu ddyddiad cyn eu henw.
- Etholwyr gyda chofnod dienw sydd heb lythyren gyferbyn â'u henw, ar wahân i'r llythyren '**N**'.
- Etholwyr sy'n 18 oed neu hŷn – mae'r ffigurau a nodir cyn cofnod etholwr yn nodi'r dyddiad y bydd yr etholwr yn cyrraedd ei 18 oed.
- Etholwyr gyda '**F**' cyn eu henw* - etholwyr sydd dramor yw'r rhain a all bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU a Senedd Ewrop yn unig.
- Etholwyr gyda '**K**' cyn eu henw* - dinasyddion aelod wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) yw'r rhain (ar wahân i'r DU, Gweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta) a all bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop, yn ogystal ag etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau sefydliadau datganoledig.

Pwy sy'n methu pleidleisio yn etholiad Senedd Ewrop?

- Etholwyr gyda dyddiad geni wrth ymyl eu henw sy'n dangos na fyddant yn 18 oed cyn diwrnod yr etholiad.
- Etholwyr gydag '**A**' cyn eu henw* - pleidleiswyr sydd wedi dewis pleidleisio drwy'r post yw'r rhain, ac nid ydynt yn gallu pleidleisio'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio.
- Etholwyr gyda '**G**' cyn eu henw* - dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd (UE) yw'r rhain a all bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol a sefydliadau datganoledig yn unig.

* Ar gyfer etholwr a gofrestrwyd yn ddienw, byddai unrhyw lythrennau'n ymddangos cyn y lythyren 'N' gan nad yw enwau etholwyr o'r fath yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr.

Os bydd unrhyw beth y tu hwnt i'r cyffredin yn digwydd ar y cam gwirio – er enghraifft, pleidleisiwr yn honni ei fod wedi gwneud cais i gofrestru ond nad yw ei fanylion yn ymddangos ar y gofrestr ac ati – cyfeiriwch at Atodiad 5 am fwy o fanylion.

Cam dau – cyhoeddi'r papur pleidleisio

Mae papurau pleidleisio wedi'u rhifo a dylent gyd-fynd â'r rhifau sydd wedi'u hargraffu ymlaen llaw ar y rhestr rhif cyfatebol. Rhaid i bapurau pleidleisio gael eu cyflwyno yn eu trefn rhifol union, gan gychwyn gyda'r rhif isaf yn y swp. Fel arall, bydd problemau'n codi wrth i'r pleidleisio ddod i ben a'r papurau pleidleisio gael eu cyfrif.

Os yw'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr fod yr etholwr yn gymwys i bleidleisio a'i fod, os oes angen, wedi ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol (gweler Atodiad 6 am y cwestiynau rhagnodedig), yna rhaid cyflwyno papur pleidleisio i'r pleidleisiwr.

Rhaid i'r Clerc Pleidleisio (neu'r Swyddog Llywyddu) gyda'r papurau pleidleisio:

- gyflwyno'r papur pleidleisio
- sicrhau bod y papur pleidleisio'n cynnwys y marc adnabod unigryw a'r marc swyddogol
- plygu'r papur pleidleisio a'i roi i'r pleidleisiwr

Dylai'r Clerc Pleidleisio (neu'r Swyddog Llywyddu) gyda'r rhestr rhif cyfatebol ysgrifennu rhif yr etholwr gyferbyn â'r papur pleidleisio sy'n cael ei gyflwyno ar y rhestr rhif cyfatebol.

Ni ddylid ysgrifennu rhif yr etholwr ar y papur pleidleisio.

Beth sy'n digwydd os nad oes marc adnabod unigryw ar y papur pleidleisio?

Rhaid i bob papur pleidleisio bellach fod â marc adnabod unigryw ar ei gefn. Gall hyn fod ar sawl gwahanol ffurf, er enghraifft, cod bar argraffedig neu ddilyniant o rifau neu lythrennau. Dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol hysbysu'r Swyddogion Llywyddu yn y sesiwn hyfforddi ynghylch pa ffurf y bydd y marc adnabod unigryw yn ymddangos.

Os na fydd marc adnabod unigryw ar yr un o'r papurau pleidleisio, dylai'r Swyddog Llywyddu hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar unwaith. Os dim ond rhai papurau sydd heb y marc, dylai'r Swyddog Llywyddu gyflwyno'r papurau pleidleisio gyda'r marc adnabod unigryw yn unig, a dylent hefyd hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Lleol am y sefyllfa.

Beth sy'n digwydd os nad oes marc swyddogol ar y papur pleidleisio?

Gellir argraffu'r marc swyddogol ar y papur pleidleisio ymlaen llaw, neu efallai bydd angen i bapurau pleidleisio gael eu tyllu â theclyn stampio wrth gael eu cyflwyno. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn dweud beth fydd y marc swyddogol yn y sesiwn hyfforddiant. Rhaid i bob papur pleidleisio gael marc swyddogol arno. Bydd unrhyw bapur pleidleisio sydd heb y marc swyddogol yn cael ei wrthod yn y cyfrif.

Os dylai fod marc swyddogol wedi'i argraffu ymlaen llaw ar y papurau pleidleisio, fel y nodwyd gan y Swyddog Canlyniadau Lleol, ond nad oes un arnynt, dylai'r Swyddog Llywyddu gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol. Efallai bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol wedi darparu teclyn stampio i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Dylid defnyddio hwn i stampio'r papur pleidleisio yn y gornel uchaf chwith, fel bod y marc yn weledol ar ddwy ochr y papur. Os na fydd y teclyn stampio'n gweithio, dylai'r Swyddog Llywyddu gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol am gyngor pellach ac addasu'n fyrfyfyr fel y nodir isod.

Beth sy'n digwydd os nad yw'r teclyn stampio'n gweithio?

Os yw'r Swyddog Canlyniadau Lleol wedi penderfynu defnyddio teclyn stampio ond heb ddarparu un, neu ei fod yn methu gweithio, dylid hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Lleol a chanfod dull arall o stampio'n fyrfyfyr. Er enghraifft, defnyddio pin bawd i dyllu'r papur pleidleisio ychydig weithiau cyn ei gyflwyno. Dylai'r Swyddog Llywyddu gofnodi'r marc a grëwyd yn fyrfyfyr a nodi rhif y papurau pleidleisio cyntaf ac olaf i gael eu cyflwyno a'u marcio fel hyn. Dylid cyflwyno hwn gyda'r cyfrif papurau pleidleisio yn y cyfrif.

Cam tri – pleidleisio

Mae'n rhaid i bleidleiswyr farcio eu papur pleidleisio ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio ac yna ei ailblygu fel na all unrhyw un weld sut y bu iddynt bleidleisio. Dylai pleidleiswyr ddangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar ei gefn i'r Swyddog Llywyddu neu'r Clerc Pleidleisio cyn gosod y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio.

Beth yw'r drefn os bydd pleidleisiwr yn gwneud camgymeriadau ac yn difetha'r papur pleidleisio?

Peidiwch â chyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Weithiau, bydd pleidleiswyr yn gwneud camgymeriadau, e.e. drwy roi marc yn erbyn y blaid neu'r ymgeisydd 'anghywir'. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gymryd y papur pleidleisio a ddifethwyd ac ysgrifennu 'dilëwyd/cancelled' arno cyn ei roi yn yr amlen a ddarperir. **Peidiwch â rhoi'r papur pleidleisio a ddifethwyd yn y blwch pleidleisio.** Pan fydd papur pleidleisio a ddifethwyd wedi'i roi yn y blwch pleidleisio, ni ellir cyhoeddi papur pleidleisio newydd.

Rhowch bapur pleidleisio newydd i'r pleidleisiwr. Peidiwch ag anghofio ysgrifennu rhif yr etholwr gyferbyn â rhif y papur pleidleisio newydd ar y rhestr rhif cyfatebol ac ysgrifennu 'dilëwyd/cancelled' gyferbyn â rhif yr etholwr ar gyfer y papur pleidleisio a

ddifethwyd. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu hefyd gofio sicrhau bod marc swyddogol ar y papur pleidleisio newydd.

Ar ddiwedd y pleidleisio, bydd y Swyddog Llywyddu'n cyfrif ac yna'n cofnodi nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd ar y cyfrif papurau pleidleisio.

Rhoi cymorth cyffredinol i bleidleiswyr

Mae gan staff pleidleisio ddyletswydd i gynorthwyo pleidleiswyr yn y broses bleidleisio. Cofiwch mai cwsmeriaid yw pleidleiswyr: cyfarchwch nhw â gwên a chofiwch ystyried unrhyw anghenion arbennig a allai fod ganddynt.

Peidiwch byth â bod yn ddi-hid, yn rhagfarnllyd nac yn nawddoglyd. Peidiwch â chael eich gwylltio na'ch cynhyrfu, hyd yn oed pan fyddwch dan bwysau.

Gwrandewch yn ofalus os gofynnir cwestiwn i chi. Os nad ydych chi'n gallu ateb cwestiwn neu bryderon pleidleisiwyr, cyfeiriwch nhw at y Swyddog Canlyniadau Lleol.

Wrth roi cymorth cyffredinol, rhaid i staff yr orsaf bleidleisio ofalu rhag arwain pleidleiswyr i fwrw eu pleidlais dros blaid neu ymgeisydd penodol, na chynnig barn am unrhyw blaid neu ymgeisydd.

Mae nifer o gyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gael i bleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Yn gyntaf oll, ceir cyfarwyddiadau am y papur pleidleisio ei hun. Mae hefyd y posteri 'Arweiniad i bleidleiswyr' a'r hysbysiad a arddangosir y tu mewn i bob bwth pleidleisio. Os bydd unrhyw bleidleisiwr yn gofyn am gymorth gallai, mewn rhai amgylchiadau, fod yn ddefnyddiol darllen y cyfarwyddiadau hyn iddynt.

Hefyd, efallai bod y Swyddog Canlyniadau Lleol wedi darparu cyfarwyddiadau neu arweiniad mewn ieithoedd neu ffurfiau amgen, yn dibynnu ar ofynion y gymuned. Dylai'r Swyddog Llywyddu fod yn gyfarwydd â pha adnoddau sydd ar gael a darparu'r rhain pan, ac os, bydd eu hangen.

Efallai bydd rhai pleidleiswyr yn dal i ganfod y cyfarwyddiadau'n ddryslyd. Efallai byddant yn gofyn, er enghraifft, i chi bwyntio at eu dewis o ymgeisydd neu blaid. Efallai bydd rhai'n gofyn ymhle ddylent osod eu croes ar y papur pleidleisio. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r Swyddog Llywyddu esbonio y gall etholwr yn etholiadau Senedd Ewrop bleidleisio am ymgeisydd unigol neu nifer o ymgeiswyr ar restr plaid, a bod y seddi'n cael eu dyrannu i ymgeiswyr ar restr plaid yn ôl y drefn y byddant yn cael eu rhestru. Dylai'r Swyddog Llywyddu wedyn ddarllen enwau'r pleidiau a'r ymgeiswyr unigol yn y drefn y byddant yn ymddangos ar y papur pleidleisio. Dylent hefyd ofyn a yw'r etholwr yn dymuno iddynt ddarllen enwau'r ymgeiswyr ar restrau'r pleidiau iddynt.

Mae rhai camau arbennig y dylid eu dilyn wrth gynorthwyo pleidleiswyr ag anableddau, a chaiff y rhain eu disgrifio yn Atodiad 1.

Cynnal a chadw'r man pleidleisio

Dylai'r Swyddog Llywyddu archwilio'r man pleidleisio yn rheolaidd a sicrhau bod gan y pleidleiswyr fynediad di-rwystr drwy'r adeg. Dylai:

- Wirio arwyddion a hysbysiadau a gosod rhai newydd neu atgyweirio unrhyw rai sydd wedi'u difwyno neu eu difrodi
- Sicrhau nad yw mynedfa'r orsaf bleidleisio, gan gynnwys unrhyw rampiau, wedi'u rhwystro.
- Lle bydd rampiau dros dro'n cael eu defnyddio, sicrhau eu bod yn eu lle'n gadarn.
- Dweud wrth unrhyw un sy'n ymgyrchu yn yr orsaf bleidleisio neu yng nghyffiniau'r orsaf i roi'r gorau iddi.
- Cael gwared ar unrhyw ddeunydd ymgyrchu a allai fod wedi'i adael yn yr orsaf bleidleisio.
- Gwneud yn siŵr bod digon o olau i bleidleiswyr yn y bythau pleidleisio.
- Gwneud yn siŵr bod y pensiliau'n dal i fod yn y bythau a'u miniogi os bydd angen.

- Sicrhau nad oes unrhyw beth wedi'i adael yn y bythau, gan gynnwys papurau pleidleisio neu wybodaeth am ymgeisydd penodol.
- Gwirio sêl/clo'r blwch pleidleisio.
- Rhoi ysgytwad i'r blwch pleidleisio neu ddefnyddio pren mesur i wthio'r papurau pleidleisio i lawr os bydd y blwch yn ymddangos yn llawn.
- Cadw'r orsaf bleidleisio'n lân, yn daclus ac yn rhydd o unrhyw beryglon, gan gynnwys unrhyw dramwyfeydd sy'n arwain at yr orsaf bleidleisio.

Pleidleisiau post

Mae Swyddogion Llywyddu'n gyfrifol am dderbyn unrhyw bleidleisiau post (neu unrhyw ran o bleidlais bost, e.e. y papur pleidleisio drwy'r post neu'r datganiad o bleidlais bost) a gyflwynir yn yr orsaf bleidleisio. Am ragor o wybodaeth am y drefn ar gyfer pleidleisio drwy'r post, edrychwch ar Atodiad 3.

Tystysgrifau cyflogaeth

Efallai bydd rhai aelodau o staff gorsaf bleidleisio wedi cael tystysgrif cyflogaeth, wedi'i llofnodi gan y Swyddog Canlyniadau Lleol, yn eu galluogi i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio arall yn y rhanbarth etholiadol, ar wahân i'w gorsaf benodedig. Yn yr un modd, gall swyddog yr heddlu gyflwyno tystysgrif o'r fath, wedi'i llofnodi gan arolygydd (neu reng uwch). Mewn achos o'r fath, bydd y Swyddog Llywyddu'n cyflwyno papur pleidleisio ac yna'n dileu'r dystysgrif a'i rhoi yn yr amlen a ddarperir.

6 Diwedd y pleidleisio

Trefniadau

- **Rhaid i'r pleidleisio ddod i ben am 10pm.**
- Gwnewch yn siŵr bod y drysau i'r orsaf bleidleisio'n cau am 10pm union.
- Rhaid caniatáu i unrhyw un a gafodd bapur pleidleisio cyn 10pm bleidleisio.
- Ni ddylid cyflwyno papur pleidleisio i unrhyw un ar ôl 10pm, hyd yn oed os bydd y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ac yn aros i gael ei bapur pleidleisio.

Caniateir i'r canlynol fod yn bresennol ar ddiwedd y pleidleisio:

- Swyddog Canlyniadau Lleol a staff yr orsaf bleidleisio
- ymgeiswyr unigol ac ar restr plaid, asiantiaid etholiad (gan gynnwys is-asiantiaid) ac asiantiaid pleidleisio
- swyddogion yr heddlu ar ddyletswydd yn yr orsaf bleidleisio
- cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig

Ar ôl i'r pleidleisio ddod i ben, rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio'r slot ar y blwch pleidleisio a gall unrhyw ymgeisydd, asiant etholiad neu asiant pleidleisio sy'n bresennol hefyd osod eu sêl arno.

Yn y cyfamser, dylai'r Clercod Pleidleisio dynnu pob arwydd yn yr ystafell i lawr a thacluso'r ystafell. Os byddant yn cael cyfarwyddyd i wneud hynny, dylai staff yr orsaf bleidleisio hefyd ddatgysylltu dodrefn yr orsaf bleidleisio a dychwelyd yr ystafell i'w gyflwr gwreiddiol. Cymerwch ofal wrth symud eitemau trwm (gweler atodiad 9 am ragor o wybodaeth am iechyd a diogelwch).

Mae gan ymgeiswyr unigol ac ar restr plaid, asiantiaid etholiad ac asiantiaid pleidleisio hefyd yr hawl i fod yn bresennol pan fydd y gwaith papur yn cael ei gwblhau a phan fydd y gwahanol becynnau dogfennau'n cael eu selio fel y disgrifir isod.

Cwblhau'r gwaith papur

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gwblhau'r holl ffurflenni swyddogol. **Cymerwch ofal wrth gwblhau'r gwaith papur. Mae'n llawer pwysicach bod yn gywir nac yn gyflym.**

Mae'n bosibl iawn na fydd rhai o'r ffurflenni swyddogol wedi cael eu defnyddio yn ystod y dydd; er enghraifft, efallai na gyhoeddwyd unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd ac efallai na chafodd unrhyw bapurau pleidleisio eu difetha. Os felly, dylech gwblhau'r ffurflenni beth bynnag, gan nodi 'dim' lle bo'n briodol.

Rhestr wirio o ffurflenni swyddogol i'w llenwi gan y Swyddog Llywyddu

- y cyfrif papurau pleidleisio
- rhestr o bleidleiswyr ag anableddau yn cael eu cynorthwyo gan gymdeithion
- rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- datganiad o nifer y pleidleiswyr y cafodd eu pleidlais eu marcio gan y Swyddog Llywyddu
- datganiad o nifer y pleidleisiau post a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio
- y rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd

Bydd y gwaith o gwblhau'r gwaith papur yn haws os bydd yr holl ffurflenni swyddogol yn cael eu gosod allan gyda'u hamlenni cyfatebol. Mae tu blaen pob amlen swyddogol yn rhestru'r cynnwys. Llenwch gynifer o'r ffurflenni a'r amlenni â phosibl yn ystod y

dydd, ymhell cyn diwedd y pleidleisio. Cofiwch gwblhau'r holl waith papur, hyd yn oed os yw'n ymddangos nad oes unrhyw beth i'w gofnodi. Efallai y bydd achlysuron, er enghraifft, pan na gyhoeddwyd unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd neu nad yw'r etholwyr wedi difetha unrhyw bapurau pleidleisio. Yn yr achosion hynny, sicrhewch eich bod yn dal i lenwi'r adrannau perthnasol ar y cyfrif papurau pleidleisio gyda'r rhif '**0**'.

Rhestr wirio pecynnau ac amlenni swyddogol a'u cynnwys

- y cyfrif papurau pleidleisio – cadwch hwn gyda'r blychau pleidleisio
- amlenni pleidleisiau post a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio – cadwch y rhain gyda'r blychau pleidleisio
- papurau pleidleisio a ddifethwyd neu na ddefnyddiwyd (arferol ac a gyflwynwyd) – os nad ydynt yn ffitio, rhwymwch yr amlen o'u cwmpas a'u clymu â llinyn neu fand elastig.
- y papurau pleidleisio a gyflwynwyd
- y copi wedi'i farcio o'r gofrestr etholwyr (gan gynnwys unrhyw hysbysiadau a farciwyd, fel y disgrifir yn Atodiad 2) a rhestr dirprwyon
- y rhestr rhif cyfatebol wedi'i chwblhau a thystysgrifau cyflogaeth
- rhestr y pleidleisiau a gyflwynwyd, rhestr y pleidleiswyr ag anabledd a gynorthwyir gan gydymaith, rhestr y pleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu, datganiad o nifer y pleidleiswyr y cafodd eu pleidleisiau eu marcio gan y Swyddog Llywyddu a'r datganiadau a wnaed gan gymdeithion y pleidleiswyr ag anableddau.

Y cyfrif papurau pleidleisio

Y cyfrif papurau pleidleisio yw'r darn pwysicaf o waith papur a dylid ei gwblhau gyntaf, yn ofalus.

Mae'r cyfrif papurau pleidleisio yn cysoni nifer y papurau pleidleisio y deliodd y swyddog Llywyddu gyda nhw. Cofiwch gyfrif nifer y papurau pleidleisio a gyhoeddwyd, yn ôl y rhestr rhif cyfatebol a chynnwys hyn ar y cyfrif papurau pleidleisio. Mae'r ffurflen yn dibynnu ar rifau cyfresol y papurau pleidleisio a dyna pam y mae mor bwysig cyhoeddi papurau pleidleisio yn eu trefn rifol fel y'u hargraffwyd ymlaen llaw ar y rhestr rhif cyfatebol.

Mewn sawl achos, bydd adran gyntaf y cyfrif papurau pleidleisio wedi cael ei llenwi ymlaen llaw gan y Swyddog Canlyniadau Lleol. Dyletswydd y Swyddog Llywyddu yw cwblhau gweddill y ffurflen.

Enghraifft o gyfrifon papurau pleidleisio wedi'i lenwi



Ballot Paper Account

ANYTOWN — Local counting area

Date of Poll	Polling Place	Polling Station	Ballot Box No
XX.XX.XXXX	XA	GUILDHALL ANYTOWN	16

1. Ordinary Ballot Papers received by Presiding Officers (May be completed by Electoral Services Staff)

Form No.	Tel No.	Total Received
72351	73800	1450

2. Ordinary Ballot Papers issued to Electors (To be completed by the Presiding Officer where marked *)

Number on NEXT Ballot to be issued: 73601

DEDUCT number of FIRST Ballot Paper issued: 72351

Total (A): 1250

3. How many spoilt Ballot Paper did you issue replacements for? Total (B): 3

4. Number of Ballot Papers in Ballot Box — ie Total (A) MINUS Total (B) = Total (C): Total (C): 1247

5. Tendered Ballot Papers received and issues (to be completed by the Presiding Officer where marked *)

RECEIVED From No.	RECEIVED To No.	ISSUED	
00 10	00 20	ISSUED	ONE
		NOT ISSUED	NINE
		SPOILT	NIL
TOTAL	10	TOTAL	10

Signed — Presiding Officer — Date XX.XX.XXXX

This account must be completed and signed by the Presiding Officer and DELIVERED SEPARATELY to the Local Returning Officer

Rhaid anfon y cyfrif papurau pleidleisio a'r amlen i bleidleisiau post gyda'r blychau pleidleisio a dogfennaeth eraill i'r ganolfan wirio yn ôl y cyfarwyddyd - peidiwch â'u colli na'u rhoi mewn unrhyw amlen arall mewn camgymeriad na'u rhoi gyda deunydd etholiadol arall gan y gallai hyn achosi problemau ac oedi yn y broses wirio.

Gweddill y gwaith papur

Dylai'r Swyddogion Llywyddu yna wneud gweddill y gwaith papur. Llenwch a llofnodwch y ffurflenni eraill ar y rhestr wirio (gweler Atodiad 12). Peidiwch ag anghofio rhoi 'dim' ar y ffurflenni os nad oedd eu hangen yn ystod y dydd.

Deunydd pacio yn yr orsaf bleidleisio

Yn eu trefn, dylech bacio'r deunydd yn eu hamlenni a'u pecynnau swyddogol. Rhaid gosod y rhestr rhif cyfatebol a'r papurau pleidleisio na ddefnyddiwyd ar wahân, yn yr amlenni priodol. Dylid hefyd cadw unrhyw bleidleisiau post (neu rannau ohonynt) a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio ar wahân gan y bydd angen y rhain yn sydyn yn y ganolfan ddilysu.

Bydd nifer o sachau, bagiau neu gewyll wedi cael eu darparu i gludo'r gwaith papur a deunydd etholiadol arall yn ôl i'r ganolfan ddilysu. Gwnewch yn siŵr bod yr eitemau yn mynd i'r cynhwysydd priodol.

Cludo deunyddiau etholiadol i'r ganolfan ddilysu

Rhaid danfon y blychau pleidleisio, y cyfrif papurau pleidleisio, amlenni pleidleisiau post, sachau neu fagiau, yn cynnwys yr amlenni swyddogol a deunydd ysgrifennu etholiadol arall i'r ganolfan gyfrif.

Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol wedi rhoi cyfarwyddiadau ynghylch cludo blychau pleidleisio a deunyddiau gorsaf bleidleisio i'r ganolfan ddilysu.

Os bydd yr eitemau'n cael eu cludo gan y Swyddog Llywyddu, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol wedi rhoi cyfarwyddiadau am leoliad y ganolfan ddilysu a'r fynedfa i'w defnyddio. Gellir gofyn i un o'r Clercod Pleidleisio helpu'r Swyddog Llywyddu os oes gormod i un person ei gario. **Ewch yn syth i'r ganolfan ddilysu, heb unrhyw oedi.** Dylai Swyddogion Llywyddu gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar unwaith os bydd unrhyw broblemau'n codi a allai achosi oedi wrth gyrraedd y ganolfan ddilysu.

Weithiau, gellir gwneud trefniadau eraill ar gyfer cludo'r blychau pleidleisio a'r deunydd etholiadol i'r ganolfan ddilysu. Efallai bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn gwneud trefniadau i'r deunydd gael ei gasglu o'r orsaf bleidleisio a'i gludo i'r ganolfan ddilysu.

Peidiwch â gadael y blychau pleidleisio ar eu pen eu hunain ar unrhyw adeg a sicrhewch mai i ddwylo aelodau staff y Swyddog Canlyniadau Lleol yn unig y bydd y blychau pleidleisio'n cael eu trosglwyddo.

Yn olaf, cyn gadael yr orsaf bleidleisio, gwnewch yn siŵr bod unrhyw wastraff yn cael ei waredu/daflu'n briodol a bod yr adeilad yn cael ei adael yn daclus. Sicrhewch fod unrhyw allweddi'n cael eu dychwelyd i'r unigolyn priodol.

Atodiad 1 – Materion cydraddoldeb

Anabledd ac etholiadau

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 wedi sefydlu hawl cyfreithiol pobl anabl. Mae adroddiadau o etholiadau blaenorol wedi dangos tystiolaeth o wahaniaethu o ran mynediad i'r broses etholiadol. Mae'r canllawiau canlynol wedi'u cynllunio i helpu sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i bleidleisio.

Rhaid i staff yr orsaf bleidleisio sicrhau nad yw pleidleiswyr anabl yn cael cynnig gwasanaeth o safon is na phleidleiswyr eraill. Rhaid gwneud newidiadau rhesymol i arferion a gweithdrefnau fel nad yw pobl gydag amrediad o anableddau yn cael eu rhoi dan unrhyw anfantais.

Wrth gwrs, cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau Lleol yw gwneud trefniadau i sicrhau bod gan bleidleiswyr anabl, cyn belled ag y bo'n bosibl, yr un mynediad i'r broses etholiadol a phawb arall. Fodd bynnag, gall arferion a fabwysiadir gan y Swyddogion Llywyddu ar y diwrnod pleidleisio hefyd helpu i wneud gwahaniaeth:

- Os bydd mannau parcio'n cael eu darparu ar gyfer pobl anabl, gwnewch yn siŵr eu bod ar gael i'r diben hwnnw drwy gydol y diwrnod pleidleisio. Dylech, os yn bosibl, gadw'r mannau parcio sy'n agos i fynedfa'r orsaf bleidleisio yn rhydd i bobl anabl.
- Sicrhewch fod arwyddion da ar gyfer unrhyw fynedfa wahanol ar gyfer yr anabl.
- Defnyddiwch ramp wedi'i hadeiladu'n bwrpasol os yn bosibl, ond gwnewch yn siŵr ei fod yn addas.
- Agorwch ddrysau dwbl os oes angen er mwyn sicrhau mynediad rhwydd i bawb – fodd bynnag, gwnewch yn siŵr nad yw'r rhain yn ddrysau tân.
- A yw'r matiau drws ar yr un lefel â'r llawr? Os na, a ellir eu symud os ydynt yn debygol o fod yn beryglus?
- Gwnewch yn siŵr fod cadair ar gael ar gyfer unrhyw etholwr allai fod angen seibiant.

Cymorth i etholwyr nad ydynt yn gallu mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio

Os bydd etholwr yn methu â dod i mewn i'r orsaf bleidleisio oherwydd anabledd corfforol, gall y Swyddog Llywyddu, wedi iddo hysbysu unrhyw asiantiaid sy'n bresennol, fynd â'r papur pleidleisio allan at yr etholwr. Ar ôl i'r papur pleidleisio gael ei farcio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu osod y papur wedi'i blygu yn y blwch pleidleisio ar unwaith. Mae'n hanfodol bod cyfrinachedd y bleidlais yn cael ei chynnal bob amser. Ni ddylid gadael y blychau pleidleisio heb eu goruchwylio, na'u symud o'r orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg.

Pleidleiswyr anabl

Gallai pleidleiswyr anabl ofyn am gymorth y Swyddog Llywyddu i farcio'r papur pleidleisio ar eu rhan. Os hynny, rhaid i'r Swyddog Llywyddu nodi hyn ar y rhestr pleidleisiau a gaiff eu marcio gan y Swyddog Llywyddu. Fel arall, gallant gael cymorth cydymaith, gyda chaniatâd y Swyddog Llywyddu, sy'n gorfod bod yn fodlon y byddai anableddau'r pleidleisiwr yn eu hatal rhag bwrw eu pleidlais heb gymorth.

Dylai cydymaith y pleidleisiwr anabl fod naill ai'n berthynas agos (tad, mam, brawd, chwaer, priod, partner sifil, mab neu ferch – os ydynt yn 18 oed neu hŷn) neu'n etholwr

cymwys. Dylai'r pleidleisiwr ofyn caniatâd y Swyddog Llywyddu i gael cydymaith gyda nhw.

Rhaid i'r cydymaith lenwi datganiad syml: 'Datganiad i gael ei wneud gan gydymaith pleidleisiwr gydag anableddau'. Bydd yn ddefnyddiol i'r Swyddog Llywyddu lenwi'r datganiad ar ran y cydymaith a gofyn iddynt wirio'r wybodaeth a llofnodi'r ddogfen.

Enghraifft o'r 'Datganiad i gael ei wneud gan gydymaith pleidleisiwr gydag anableddau



Declaration to be made by the Companion of a Voter with Disabilities

Declaration to be made by the Companion of a Voter with Disabilities

I, _____

of _____

In the case of a person with disabilities voting as proxy add

having been requested to assist _____

voting as proxy for _____

whose number on the register is _____

to record his/her vote at the election now being held in this electoral region, declare that

*** Delete whichever is inapplicable*

** [I am entitled to vote as an elector at the said election]

** State the relationship of the companion to the voter.*

** [I am the * _____ of the said voter and have attained the age of eighteen years] and that I have not previously assisted any person with disabilities

** except _____

of _____

to vote at the said election.

Signed _____

_____ day of _____ 20 _____

NB

If the person making the above declaration knowingly and wilfully makes a statement false in a material particular, he/she will be guilty of offence.

A voter with disabilities is a voter who has made a declaration under the European Parliamentary elections rules that he/she is so incapacitated by his/her blindness or other disability, or by his/her inability to read, as to be unable to vote without assistance.

I, the undersigned, being the Presiding Officer for the _____ Polling Station for the _____ Local counting area certify that the above declaration, having been first read to the above-named declarant, was signed by the declarant in my presence.

Signed _____

Presiding Officer at the said Polling Station

_____ day of _____ 20 _____

_____ minutes past _____ o'clock am/pm

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gofnodi enw a rhif etholwr y pleidleisiwr, yn ogystal ag enw a chyfeiriad y cydymaith, ar y ffurflen 'Rhestr o bleidleiswyr gydag anableddau sy'n cael eu cynorthwyo gan gymdeithion'.

Enghraifft o'r 'Rhestr o bleidleiswyr gydag anableddau sy'n cael eu cynorthwyo gan gymdeithion

List of voters with disabilities assisted by companions

Election in the _____ Local counting area

Date of Poll	Polling Station

Number on Register of Electors*	Name of voter with disability*	Name of Companion	Address of companion

Signed _____ Presiding Officer

*If the voter with disability is voting as proxy for an elector, enter the name of the voter, but the elector's number

Pobl ddall neu wan eu golwg

Gall etholwr dall neu wan eu golwg bleidleisio heb gymorth drwy ddefnyddio'r templed pleidleisio cyffyrddol a ddarperir. Dylai holl staff yr orsaf bleidleisio wybod sut i ddefnyddio'r templed hwn a gallu esbonio i bleidleiswyr dall neu wan eu golwg sut i'w ddefnyddio. Gwnewch yn siŵr fod y templed wedi'i osod yn gadarn ar y papur pleidleisio a bod y pleidleisiwr yn hyderus am ei ddefnyddio. Dylai'r pleidleisiwr:

- godi'r ffenestr ddewisol
- marcio eu dewis
- cau'r ffenestr
- tynnu'r templed oddi ar y papur pleidleisio
- plygu'r papur pleidleisio a'i osod yn y blwch pleidleisio
- dychwelyd y templed i'r Swyddog Llywyddu

Dylech sicrhau bod y fersiwn print bras o'r papur pleidleisio yn cael eu dangos mewn man sydd wedi'i oleuo'n dda lle gall yr etholwr ei weld yn rhwydd. Dylai'r copi llaw mwy o'r papur pleidleisio, wedi'i farcio â 'sampl', hefyd fod ar gael i'r etholwyr.

Gall pleidleiswyr dall neu sy'n wan eu golwg ofyn am gymorth gan y Swyddog Llywyddu neu gymdeithion cymwys

Dylech:

- roi cyfarwyddiadau manwl i helpu pleidleiswyr o'r fath i ganfod eu ffordd
- arwain y pleidleisiwr dan eu cyfarwyddyd hwy (mae'r rhan fwyaf yn ffafrio gafael ym mraich yr helpwr)

Ni ddylech:

- gymryd yn ganiataol bod angen cymorth – gofynnwch yn gyntaf bob amser
- dynnu sylw'r ci tywys drwy ffysian neu anwesu a pheidiwch â gafael yn eu tennyn
- cyffwrdd y pleidleisiwr; gofynnwch a ydynt yn dymuno cael eu harwain yn gyntaf

Pobl ddall a byddar

Mae bandiau coch ar ffon wen, neu harnais coch a gwyn ar gi tywys yn arwydd bod gan yr unigolyn nam ar eu golwg ac ar eu clyw hefyd.

Pobl fyddar

Ychydig iawn o glyw fydd gan bobl sy'n ddifrifol fyddar, a hynny gyda chymorth teclyn clyw yn unig fel arfer. Er mwyn cyfathrebu, bydd unigolyn hollol fyddar ran amlaf yn dibynnu ar iaith arwyddion a darllen gwefusau.

Bydd angen teclyn clyw ar unigolyn hollol fyddar er mwyn eu helpu i glywed rhywfaint. Mewn rhai achosion, efallai y bydd unigolyn hollol fyddar yn gallu clywed synau penodol, yn dibynnu ar gryfder neu amledd y sŵn.

Dylech:

- geisio cael sylw'r unigolyn byddar cyn siarad
- cyffwrdd eu hysgwydd yn ysgafn neu godi llaw arnynt
- wynebu'r unigolyn y byddwch yn siarad â nhw
- siarad yn araf ac yn glir, i'w helpu i allu darllen gwefusau
- aros yn amyneddgar ac ailadrodd os bydd angen
- cynnal cyswllt llygaid
- defnyddio iaith corff a mynegiant wyneb i helpu cyfathrebu – gallai ystumiau helpu
- ysgrifennu'r hyn rydych yn ceisio ei ddweud mewn iaith glir

Ni ddylech:

- weiddi – mae'n aflunio eich wyneb a'ch llais
- gosod unrhyw beth yn eich ceg
- gorchuddio eich ceg
- siarad yn rhy gyflym
- siarad yn rhy araf neu orwneud patrymau gwefusau
- troi i ffwrdd neu edrych i lawr
- siarad gyda golau llachar y tu ôl i chi – bydd hyn yn lluchio cysgod ar eich wyneb
- cael unrhyw beth yn eich llaw os byddwch chi'n ystumio
- rhoi'r gorau i geisio os nad yw'r unigolyn byddar yn deall ar unwaith

Pleidleiswyr gyda phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu

Mae'n bosibl i unigolyn sydd wedi gwneud cais am bapur pleidleisio ymddangos i'r Swyddog Llywyddu fel pe baent yn dioddef o ryw fath o gyflwr meddyliol neu fod ganddynt anabledd dysgu.

Barn y Comisiwn yw na ellir gwrthod rhoi papur pleidleisio i unigolyn sydd wedi'i gofrestru fel etholwr neu wedi'u henwi ar y rhestr o ddirprwyon, neu mewn geiriau eraill na ellir eu heithrio rhag pleidleisio, ar sail analluedd meddyliol.

Dylai Swyddogion Llywyddu fod yn sensitif i'r ffaith y gallai unigolyn ymddangos fel eu bod yn dioddef afiechyd meddwl ond eu bod yn dal yn ddigon abl i bleidleisio. Hefyd, mae rhai pobl sydd ag anableddau dysgu'n cael eu camgymryd fel pobl ag analluedd meddyliol.

Ym mhob achos, dylai'r Swyddog Llywyddu gesio sicrhau bod pob unigolyn yn cael y cymorth priodol er mwyn gallu bwrw eu pleidlais. Er enghraifft, efallai y bydd angen i'r Swyddog Llywyddu esbonio'r broses bleidleisio i'r etholwr, neu efallai y bydd yr etholwr yn gofyn am gymorth cydymaith.

Os bydd yr etholwr yn ddall, yn dioddef anabledd corfforol, neu'n datgan nad ydynt yn gallu darllen, gall y Swyddog Llywyddu farcio'r papur pleidleisio ar eu rhan. Fel arall, gallai'r etholwr ofyn i'r Swyddog Llywyddu ganiatáu cydymaith i'w cynorthwyo nhw. Dim ond rhai pobl benodol all weithredu fel cydymaith: rhaid iddynt fod yn berthynas agos (tad, mam, brawd, chwaer, priod, partner sifil, mab neu ferch - ar yr amod eu bod yn 18 oed neu hŷn) neu'n etholwr cymwys.

Atodiad 2 – Delio gyda phroblemau ar y gofrestr etholwyr

Oed – hawl i bleidleisio

Mae'n drosedd i unigolion dan 18 oed bleidleisio yn yr etholiad hwn, boed hynny ar eu pen eu hunain neu yng nghwmni rhywun. Os bydd rhywun yn amlwg dan 18 oed, dylid eu rhybuddio y byddant yn torri'r gyfraith os byddant yn pleidleisio yn yr etholiad hwn. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig a rhaid i'r unigolyn eu hateb heb gymorth (gweler Atodiad 6a am y cwestiynnau rhagnodedig). Os bydd yr unigolyn yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, rhaid rhoi papur pleidleisio iddynt. Dylid gwneud nodyn o enw a chyfeiriad y pleidleisiwr ac unrhyw fanylion eraill, gan gynnwys amser y digwyddiad a manylion unrhyw bobl eraill oedd gyda'r pleidleisiwr. Dylid hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Lleol am hyn.

Camsillafu enwau a phleidleiswyr sydd wedi newid eu henwau

Weithiau, bydd enw pleidleisiwr yn cael ei gamsillafu, neu bydd yr enw wedi newid yn gyfreithiol ers iddynt gwblhau ffurflen gofrestru e.e. drwy briodas.

Gofynnwch y cwestiynau rhagnodedig i'r pleidleisiwr (gweler Atodiad 6a). Os bydd y pleidleisiwr yn ateb yn foddhaol, rhaid gadael iddynt bleidleisio, a dylai'r Swyddog Llywyddu wneud nodyn o'r camgymeriad a'i basio ymlaen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Os bydd yr etholwr yn mynnu bod y camgymeriad yn cael ei gywiro cyn iddynt bleidleisio, dylai'r Swyddog Llywyddu gysylltu â swyddfa'r etholiad am gyngor, neu fel arall gyfeirio'r etholwr at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Etholwyr eraill

Ar ddiwedd rhai cofrestri, mae pennawd 'Etholwyr eraill'. Nid oes gan etholwyr sy'n ymddangos yma, gan gynnwys etholwyr dienw, gwasanaethu a thramor, a'r rhai sydd wedi cofrestru drwy ddatganiad cysylltiad lleol, gymhwyster preswylio mwyach, ond maent yn dal i fod yn gymwys i bleidleisio (yn amodol ar hawl). Mae'n annhebygol y bydd etholwyr tramor neu sy'n gwasanaethu wedi cael cerdyn pleidleisio. Fodd bynnag, bydd cardiau pleidleisio wedi cael eu hanfon i bob etholwr dienw, sydd, yn wahanol i etholwyr arferol, yn gorfod dangos eu cerdyn pleidleisio er mwyn gallu bwrw pleidlais yn yr orsaf bleidleisio (gweler Atodiad 5).

Unigolyn nad yw ar y rhestr etholwyr

Fel arfer, bydd y gofrestr etholwyr yn cynnwys pawb sydd â hawl i bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio honno. Os na fydd enw unigolyn yn ymddangos ar gofrestr yr orsaf bleidleisio, gallai fod oherwydd nad yw'r unigolyn hwnnw wedi dychwelyd ffurflen gofrestru. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod camgymeriad wedi cael ei wneud.

Camgymeriadau clerigol ar y gofrestr

Os bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn darganfod bod ffurflen gais a gafodd ei chwblhau'n gywir wedi'i derbyn, ond bod yr unigolyn wedi'i hepgor o'r gofrestr o ganlyniad

camgymeriad hwnnw unrhyw adeg hyd at 9pm ar y diwrnod pleidleisio a gwneud darpariaethau i'r unigolyn hwnnw allu pleidleisio hyd at ddiwedd y pleidleisio am 10pm.

Gallai'r camgymeriad gael ei ddarganfod gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, cyn neu ar ddiwrnod y pleidleisio, gan etholwr neu gan ddirprwy yn yr orsaf bleidleisio.

Camgymeriadau clerigol a welir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol cyn y diwrnod pleidleisio

Os bydd camgymeriad yn cael ei weld cyn y diwrnod pleidleisio, ond ar ôl i'r gofrestr gael ei chynhyrchu ar gyfer yr orsaf bleidleisio, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi darparu 'hysbysiad' ar wahân, gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau, yn ychwanegol at y gofrestr arferol. Rhaid marcio'r hysbysiad hwn yn yr un modd a phe bai'n rhan o'r gofrestr. Fel arfer, bydd wedi'i amgáu ar ddiwedd y gofrestr arferol. Mae pob trefn arall yr un fath, gan gynnwys selio hysbysiadau o'r fath gyda'r gofrestr ar ddiwedd y pleidleisio.

Camgymeriadau clerigol a welir gan y Swyddog Llywyddu ar y diwrnod pleidleisio

Os bydd rhywun yn cyflwyno eu hunain yn yr orsaf bleidleisio ac nad ydynt ar y gofrestr (nac ar hysbysiad) a'u bod yn mynnu iddynt wneud cais i gofrestru, dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio hyn ar unwaith at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Camgymeriadau clerigol a welir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar y diwrnod pleidleisio

Os bernir bod ffurflen gais a gafodd ei chwblhau'n gywir wedi'i derbyn a bod yr unigolyn wedi'i hepgor o'r gofrestr o ganlyniad i gamgymeriad clerigol yn unig, rhaid cywiro'r camgymeriad a dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hysbysu'r Swyddog Llywyddu (naill a'i ysgrifenedig neu ar lafar, e.e. dros y ffôn).

Gweithdrefnau i ganiatáu unigolyn i bleidleisio ar ôl cywiro camgymeriad clerigol ar y diwrnod pleidleisio

Bydd cyfarwyddiadau am sut y bydd y wybodaeth yn cael ei chyfathrebu i'r Swyddog Llywyddu yn cael ei roi yn y sesiwn hyfforddi.

Os bydd yr hysbysiad yn cael ei gyfathrebu ar lafar, rhaid i'r Swyddog Llywyddu wneud cofnod ysgrifenedig o enw a rhif yr etholwr a marcio'r cofnod hwn wrth gyflwyno papur pleidleisio yn y modd arferol. Efallai y bydd Swyddogion Llywyddu wedi cael ffurflen arbennig i'r diben hwn.

Os bydd yr hysbysiad yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig, bydd rhaid marcio'r hysbysiad hwnnw yn yr un modd a phe bai'n rhan o'r gofrestr, neu bydd rhaid i'r Swyddog Llywyddu ysgrifennu a marcio enw a rhif yr etholwr ar ffurflen arbennig a ddarparwyd i'r diben.
Bydd Swyddogion Llywyddu wedi cael cyfarwyddiadau arbennig yn eu sesiwn friffio. Unwaith y bydd enw a rhif yr etholwr wedi'u marcio, rhaid cyflwyno papur pleidleisio yn y modd arferol.

Rhaid selio'r hysbysiad neu'r cofnod ysgrifenedig wedi'i farcio gyda'r gofrestr ar ddiwedd y pleidleisio.

Etholwyr sydd wedi'u dosbarthu i orsaf bleidleisio arall

Ni ddylid gadael i unrhyw un arall nad ydynt ar y gofrestr etholwyr (neu'r hysbysiad) ar gyfer yr orsaf bleidleisio honno bleidleisio. Efallai y bydd yr unigolyn wedi'i gofrestru i bleidleisio mewn rhanbarth pleidleisio arall. Os bydd angen mwy o gymorth ar yr etholwr, dylech eu cyfeirio at y Swyddog Canlyniadau Lleol neu'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Atodiad 3 – y drefn ar gyfer pleidleiswyr post a thrwy ddirprwy

Pleidleiswyr post

Bydd rhai etholwyr wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post yn yr etholiad. Bydd gan etholwyr sydd wedi dewis pleidleisio drwy'r post lythyren '**A**' wrth eu henw yn y gofrestr etholwyr i'w ddefnyddio yn yr orsaf bleidleisio er mwyn dangos eu bod yn bleidleiswyr post. Bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y bydd y papurau pleidleisio drwy'r post wedi'u hanfon iddynt yn cael eu dangos ar y rhestr pleidleiswyr post. Ni fydd etholwyr o'r fath yn cael pleidleisio'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio, hyd yn oed os byddant yn nodi nad ydynt wedi derbyn eu papur pleidleisio drwy'r post.

Fodd bynnag, gall y pleidleisiwr, neu rywun arall ar eu rhan, gyflwyno pleidleisiau post wedi'u cwblhau mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn eu hardal gyfrif leol. Dylai'r bleidlais bost fod mewn amlen wedi'i selio a dylid ei gosod, heb ei hagor, yn yr amlen a ddarperir gan y Swyddog Llywyddu.

Rhaid cadw'r amlen yn ddiogel bob amser. Rhaid ei throsglwyddo i unrhyw staff a benodir i gasglu pleidleisiau post a gyflwynir yn yr orsaf bleidleisio yn unol â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau Lleol, neu i'w danfon i'r ganolfan ddilysu ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

Ni ddylid gosod pleidleisiau post yn y blwch pleidleisio.

Casglu pleidleisiau post o'r gorsafoedd pleidleisio

Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol drefnu i'r pleidleisiau post gael eu casglu o'r gorsafoedd pleidleisio yn ystod y diwrnod pleidleisio. Os bydd pleidleisiau post yn cael eu casglu o'r orsaf bleidleisio, dylid eu gosod mewn pecyn wedi'i selio. Gall asiantiaid pleidleisio ac asiantiaid etholiadol hefyd ychwanegu eu sêl i'r pecyn os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun wedi'u rhestru fel pleidleisiwr post (neu bleidleisiwr post drwy ddirprwy) ond yn honni nad ydynt wedi gwneud cais i fod yn bleidleisiwr post?

Mae achlysuron pan fydd etholwr neu ddirprwy penodedig yn gofyn am bapur pleidleisio ond yn canfod eu bod wedi'u nodi fel pleidleisiwr post ar y gofrestr o etholwyr.

Dylai'r Swyddog Llywyddu wirio'r wybodaeth ar y gofrestr etholwyr er mwyn cadarnhau bod y pleidleisiwr wedi'i farcio fel pleidleisiwr post. Dylai'r Swyddog Llywyddu esbonio'r sefyllfa i'r etholwr ac os bydd yr etholwr yn mynnu nad ydynt wedi gwneud cais am bleidlais bost, dylid dilyn y camau canlynol.

Os bydd gan y pleidleisiwr eu pleidlais bost gyda nhw dylid eu cynghori i'w dychwelyd yn y modd arferol, gan gofio y gellir cyflwyno papurau pleidleisio drwy'r post, wedi'u cwblhau, yn yr orsaf bleidleisio.

Ni ellir rhoi papur pleidleisio arferol yn yr orsaf bleidleisio i etholwyr sydd wedi'i nodi fel rhai a dderbyniodd pleidlais bost. Fodd bynnag, mae gan etholwr neu ddirprwy sy'n honni na wnaethant erioed wneud cais am bleidlais bost, ond sydd wedi'u rhestr fel pleidleiswyr post, yr hawl i dderbyn papur pleidleisio a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg.

Fel arall, hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio, gall y Swyddog Canlyniadau Lleol roi pecyn pleidleisio drwy'r post newydd iddynt.

Dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio'r etholwr at y Swyddog Canlyniadau Lleol am gyngor am y drefn hon.

Os bydd hyn cyn 5pm, ond na all yr etholwr, neu nad yw eisiau, gwneud trefniadau i becyn pleidleisio drwy'r post newydd gael ei gyhoeddi, dylai'r Swyddog Llywyddu roi un o'r papurau pleidleisio a gyflwynwyd iddynt yn hytrach (gweler Atodiad 6b).

Ar ôl 5pm, ni ellir rhoi pecyn pleidleisio newydd i'r etholwr, felly'r unig beth y gall y Swyddog Llywyddu ei wneud yw rhoi un o'r papurau pleidleisio a gyflwynwyd iddo.

Cyn rhoi un o'r papurau pleidleisio a gyflwynwyd, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig priodol (gweler Atodiad 6a).

Os bydd yr etholwr yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, rhaid i'r Swyddog Llywyddu roi un o'r papurau pleidleisio a gyflwynwyd iddo - ni ddylid rhoi papur pleidleisio arferol i'r etholwr.

Beth sy'n digwydd os na fydd etholwr (neu ddirprwy pleidlais bost) wedi derbyn papur pleidleisio drwy'r post, neu eu bod wedi'i golli neu ei ddifetha?

Os bydd etholwr (neu ddirprwy pleidlais bost) yn dweud eu bod wedi gwneud cais am bleidlais bost, ond nad ydynt wedi'i derbyn neu eu bod wedi'i cholli neu ei difetha, dylid eu cynghori i wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau Lleol am becyn newydd, cyn belled â bod y cais hwn yn cael ei wneud cyn 5pm ar y diwrnod pleidleisio. Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol gyflwyno pecynnau newydd hyd at yr amser hwnnw.

Os bydd etholwr (neu ddirprwy pleidlais bost) yn dweud eu bod wedi colli, difetha neu heb dderbyn eu papurau pleidleisio drwy'r post ac yn cyrraedd ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio, gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddynt os byddant yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol (gweler Atodiad 6a). **Ni ellir** cyhoeddi papurau pleidleisio a gyflwynwyd i etholwyr (neu ddirprwyon pleidlais bost) o'r fath cyn 5pm.

Pleidleisio drwy ddirprwy

Bydd rhai etholwyr wedi penodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan. Er hynny, gall etholwyr bleidleisio'n bersonol ar yr amod eu bod yn gwneud hynny cyn y dirprwy ac nad yw'r dirprwy wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post. Gwiriwch y gofrestr etholwyr i weld a yw'r etholwr eisoes wedi pleidleisio cyn symud ymlaen â'r camau canlynol. Bydd gan unrhyw etholwr sydd wed gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy lythyren '**P**' yn erbyn eu henw ar y gofrestr etholwyr.

Os bydd y dirprwy hefyd yn pleidleisio eu hunain, dylent wneud hynny cyn pleidleisio fel dirprwy.

Yn gyntaf, gofynnwch am enw a chyfeiriad yr etholwr, a gweld a ydynt wedi'u cynnwys ar y gofrestr dirprwyon. Gofynnwch am enw a chyfeiriad y dirprwy a thynnwch linell ar y rhestr o ddirprwyon i nodi bod y dirprwy wedi pleidleisio.

Yna, dylid marcio cofnod yr etholwr ar y gofrestr yn y ffordd arferol, a dylid darllen enw a rhif yr etholwr yn uchel.

Dylai'r Swyddog Llywyddu neu'r Clerc Pleidleisio sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r papurau pleidleisio ysgrifennu rhif yr etholwr (**dim** y dirprwy) ar y rhestr rhifau cyfatebol, gyferbyn â'r rhif papur pleidleisio priodol, er mwyn cofnodi bod y papur pleidleisio hwnnw wedi'i gyhoeddi.

Cofiwch mai dim ond i'r etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiad y dylid cyhoeddi papur pleidleisio. Os bydd cofnod etholwr yn y gofrestr etholwyr wedi'i ragnodi â llythyren sy'n golygu nad oes ganddynt hawl i bleidleisio mewn etholiad Senedd Ewrop, ni fydd y dirprwy'n gallu bwrw pleidlais ar eu rhan.

Y drefn ar gyfer cyhoeddi papurau pleidleisio i ddirprwyon sy'n pleidleisio ar ran etholwyr gyda chofnod dienw.

Er mwyn eu gwarchod rhag niwed, bydd rhai etholwyr yn cael eu cofrestru heb gyfeiriad at eu henw na'u cyfeiriad – byddant yn ddienw ar y gofrestr (gweler Atodiad 4). Mae'n bosibl y bydd etholwyr gyda chofnod dienw wedi penodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan. Yn yr achos hwnnw, gofynnwch am eu cerdyn pleidleisio: rhaid i ddirprwyon sy'n dymuno pleidleisio ar ran etholwr dienw gyflwyno eu cerdyn pleidleisio drwy ddirprwy swyddogol ac ni fyddant yn cael pleidleisio fel dirprwy hebddo. Yn hytrach na gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr a galw enw'r etholwr, dim ond eu rhif etholwr y dylid gofyn amdano a'i alw.

Cofiwch mai dim ond i etholwyr sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiad y dylid cyflwyno papur pleidleisio. Os bydd llythyren yn ymddangos o flaen cofnod dienw'r etholwr ar y gofrestr etholwyr sy'n golygu nad oes ganddynt hawl i bleidleisio mewn etholiad Senedd Ewrop, ni fydd y dirprwy'n gallu bwrw pleidlais ar eu rhan.

Cymhwyster

Nid oes gan unrhyw un hawl i bleidleisio fel dirprwy i fwy na dau etholwr mewn unrhyw ranbarth etholiadol yn yr un etholiad ar gyfer Senedd Ewrop. Yr unig amgylchiadau lle y caniateir i rywun weithredu fel dirprwy i fwy na dau etholwr yw os byddant yn aelod o'u teulu agos (h.y. tad, mam, brawd, chwaer, priod, partner sifil, mab, merch, nain neu daid a ŵyr neu wyres). Os bydd rhywun sydd wedi'i benodi i weithredu fel dirprwy i fwy nag un etholwr yn gwneud cais i fwrw pleidleisiau'r etholwyr, dylid rhoi papurau pleidleisio'r etholwyr i'r dirprwy un ar y tro.

Gellir hefyd herio dirprwyon yn yr un modd ag etholwyr arferol os byddant yn cael eu hamau o gam-bersonadu. Os bydd hyn yn digwydd, dylech ofyn y cwestiynnau rhagnodedig perthnasol (gweler Atodiad 6a).

Beth os bydd yr etholwr yn dod i bleidleisio yn hytrach na'u dirprwy?

Mae gan etholwr sydd wedi penodi dirprwy'r hawl i dderbyn eu papur pleidleisio os byddant yn gofyn amdano'n bersonol, ond dim ond os bydd hynny cyn i'r papur pleidleisio gael ei gyhoeddi ar eu rhan i'r dirprwy. Ni ddylid marcio'r rhestr dirprwyon os bydd hyn yn digwydd, ond dylid yn hytrach farcio cofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr. Os bydd y dirprwy'n dod i'r orsaf bleidleisio'n ddiweddarach, ni ddylid caniatáu iddynt bleidleisio fel dirprwy i'r etholwr ond, os byddant yn mynnu nad yw eu dirprwy wedi pleidleisio eto ar eu rhan a bod y cwestiynnau rhagnodedig yn cael eu hateb yn foddhaol (gweler Atodiad 6a), rhaid cyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddynt.

Os bydd y dirprwy wedi gofyn am bleidlais bost, ni ellir rhoi papur pleidleisio i'r etholwr. Bydd y llythyren '**A**' yn ymddangos gyferbyn ag enw'r etholwr ar y gofrestr etholwyr a bydd enw a chyfeiriad y dirprwy yr anfonwyd y bleidlais bost iddo yn ymddangos ar y rhestr o ddirprwyon pleidlais bost.

Dirprwyon ar sail argyfyngau meddygol

Gall etholwyr benodi dirprwy hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio mewn achos o argyfwng meddygol. Os bydd rhywun yn gwneud cais ar y diwrnod pleidleisio, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn gwneud yn siŵr bod holl staff yr orsaf bleidleisio'n ymwybodol o'r drefn briodol i'w dilyn.

Os bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn caniatau cais am ddirprwy mewn argyfwng ar y diwrnod pleidleisio, bydd y penderfyniad yn cael ei gyfathrebu i'r Swyddog Llywyddu perthnasol yn ysgrifenedig neu dros y ffôn.

Dylai'r Swyddog Llywyddu yna wneud cofnod o enw, cyfeiriad a rhif yr etholwr ac amgau'r wybodaeth hon gyda'r rhestr pleidleiswyr absennol. Efallai y bydd taflen wag wedi'i chynnwys ar ddiwedd y rhestr pleidleiswyr absennol i'r diben hwn.

Unwaith y bydd penderfyniad y Swyddog Cofrestru Etholiadol i ddyfarnu dirprwy mewn argyfwng wedi'i gyhoeddi, rhaid i'r Swyddog Llywyddu gyhoeddi papur pleidleisio yn y modd arferol. Dylid marcio cofnod ysgrifenedig y Swyddog Cofrestru Etholiadol (os bydd ar gael) neu nodyn y Swyddog Llywyddu, er mwyn dangos bod y dirprwy wedi pleidleisio ar ran yr etholwr.

Atodiad 4 – Trefniadau pleidleisio arbennig

Rhoi cymorth i bleidleiswyr na all ddarllen y papur pleidleisio

Efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol wedi darparu copïau o hysbysiadau i orsafoedd pleidleisio mewn fformatau gwahanol neu ieithoedd ar wahân i Saesneg neu Gymraeg, ac os hynny dylid eu lleoli neu eu cynnig mewn modd sy'n galluogi'r pleidleiswyr i gael gafael arnynt yn rhwydd.

Os bydd etholwr yn honni na allant ddarllen y papur pleidleisio, dylai'r Swyddog Llywyddu roi cymorth iddynt. Os bydd yr etholwr yn gwybod pa ymgeisydd neu blaid y maent yn dymuno rhoi eu pleidlais iddynt, dylent ofyn i'r Swyddog Llywyddu, yng nghyfrinachedd y bwth pleidleisio, farcio'r papur pleidleisio ar eu rhan yn unol â hynny. Dylai'r Swyddog Llywyddu ddilyn yr un drefn ar gyfer unrhyw etholwr sydd, oherwydd anabledd neu unrhyw anghenion arbennig eraill, angen cymorth y Swyddog Llywyddu i bleidleisio.

Weithiau, gall etholwr fod yn ansicr ynghylch pwy yr hoffent roi eu pleidlais iddynt. Yn yr achos hwnnw, dylai'r Swyddog Llywyddu esbonio bod modd i etholwr, yn etholiadau Senedd Ewrop, bleidleisio am ymgeisydd unigol neu am nifer o ymgeiswyr ar restr plaid, a bod y seddi'n cael eu dyrannu i ymgeiswyr ar restr plaid yn y drefn yr enwir hwy. Dylent yna ddarllen enwau'r pleidiau a'r ymgeiswyr unigol yn y drefn y byddant yn ymddangos ar y papur pleidleisio. Dylai'r Swyddog Llywyddu ofyn a hoffai'r pleidleisiwr iddynt ddarllen enwau'r ymgeiswyr ar restrau'r pleidiau hefyd.

Unwaith y bydd etholwr wedi gwneud penderfyniad, rhaid i'r Swyddog Llywyddu farcio'r papur pleidleisio yn unol â hynny. Os bydd Asiantiaid Pleidleisio'n bresennol, dylid eu gwahodd i wrando ac arsylwi ar y Swyddog Llywyddu er mwyn gallu cadarnhau bod y papur pleidleisio'n cael ei farcio'n unol â dymuniadau'r pleidleisiwr.

Cyn marcio'r papur pleidleisio ar ran yr etholwr, rhaid i'r Swyddog Llywyddu gymryd pob cam posibl i gynnal cyfrinachedd y bleidlais.

Os bydd rhaid i'r Swyddog Llywyddu farcio papur pleidleisio ar ran etholwr, dylid nodi enw'r etholwr ar y ffurflen swyddogol 'Rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu'. Ar ddiwedd y diwrnod pleidleisio, rhaid i'r Swyddog Llywyddu hefyd lenwi'r 'Datganiad o nifer y pleidleiswyr y cafodd eu pleidlais ei marcio gan y Swyddog Llywyddu'.

Enghraifft o 'Restr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu'



List of votes marked by the Presiding Officer

List of votes marked by the Presiding Officer

Election in the ____ Local counting area

Date of Poll	Polling Station

Number on Register of Electors*	Name of voter*	Reason for vote being marked	
		Physical incapacity (state what)	Unable to read

Signed _____
Presiding Officer

*Where the voter votes as proxy for an elector, enter the name of the voter, but the elector's number

Beth sy'n digwydd os bydd pleidleisiwr yn honni eu bod wedi gwneud cais ond nad ydynt ar y gofrestr etholwyr?

Dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio'r unigolyn at y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud bod ffurflen gais wedi'i chwblhau'n gywir wedi'i derbyn, ond nad yw manylion yr unigolyn wedi'u cynnwys ar y gofrestr o ganlyniad i gamgymeriad clerigol, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol roi cyfarwyddiadau (ysgrifenedig neu ar lafar) i'r Swyddog Llywyddu cyn 9pm, er mwyn galluogi'r unigolyn i bleidleisio cyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio. Am fanylion pellach, gweler Atodiad 2.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun wedi'u rhestru fel pleidleisiwr post (neu drwy ddirprwy) ond yn honni iddynt golli neu beidio â derbyn y bleidlais bost?

Ni ellir, dan unrhyw amgylchiadau, roi papur pleidleisio arferol yn yr orsaf bleidleisio i etholwyr neu ddirprwyon penodedig sydd wedi'u marcio fel rhai a dderbyniodd bleidlais bost.

Fodd bynnag, hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio, gellir rhoi pecyn pleidleisio drwy'r post newydd iddynt os ydynt yn honni iddynt golli neu beidio â derbyn un (gweler Atodiad 3). Dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio'r etholwr at y Swyddog Canlyniadau Lleol am gyngor ar y drefn hon. Ni ddylid rhoi papur pleidleisio drwy'r post newydd yn yr orsaf bleidleisio.

Ar ôl 5pm, ni ellir rhoi pecyn pleidleisio drwy'r post newydd i'r etholwr (neu ddirprwy), felly dim ond yn unol â'r drefn a nodir yn Atodiad 6b y gall y Swyddog Llywyddu roi papur pleidleisio a gyflwynwyd. Ni ellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd i etholwr neu ddirprwy sy'n honni iddynt golli neu beidio â derbyn eu pecyn pleidleisio drwy'r post cyn 5pm.

Dylai'r Swyddog Llywyddu wneud cofnod o fanylion yr etholwr yn unol â chyfarwyddyd y Swyddog Canlyniadau Lleol.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun wedi'u rhestru fel pleidleisiwr post (neu ddirprwy pleidlais bost) ond yn honni iddynt beidio â gwneud cais am bleidlais bost?

Ni ellir, dan unrhyw amgylchiadau, roi papur pleidleisio arferol, yn yr orsaf bleidleisio, i etholwyr neu ddirprwyon sydd wedi'u marcio fel rhai a dderbyniodd pleidlais bost.

Mae gan etholwr neu ddirprwy sy'n honni iddynt beidio â gwneud cais am bleidlais bost, ond sydd wedi'u rhestru fel pleidleisiwr post, yr hawl i dderbyn papur pleidleisio a gyflwynwyd ar unrhyw adeg os bydd y cwestiynnau rhagnodedig yn cael eu hateb yn foddhaol. Fodd bynnag, hyd at 5pm, gellir rhoi pecyn pleidleisio newydd iddynt (gweler Atodiad 3). Dylai'r Swyddog Llywyddu gyfeirio'r etholwr at y Swyddog Canlyniadau Lleol am gyngor ar y drefn hon.

Ar ôl 5pm, ni ellir rhoi pecyn pleidleisio drwy'r post newydd i etholwr neu ddirprwy, felly dim ond yn unol â'r drefn yn Atodiad 5 y gall y Swyddog Llywyddu roi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Ym mhob achos, dylai'r Swyddog Llywyddu wneud cofnod o fanylion yr etholwr, yn ôl cyfarwyddwyr y Swyddog Canlyniadau Lleol. Dylent hefyd gynghori'r etholwr i gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, yn enwedig os ydynt yn dymuno gohirio eu trefniadau pleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiadau'r dyfodol.

Beth sy'n digwydd os bydd staff yr orsaf bleidleisio'n amau bod rhywun yn cam-bersonadu etholwr neu ddirprwy?

Y drefn ar gyfer achosion o gambersonadu

Efallai y bydd rhai achosion prin pan fydd aelod o staff yr orsaf bleidleisio, etholwr arall, ymgeisydd, asiant etholiad neu asiant pleidleisio yn amau bod yr unigolyn sy'n gofyn am bapur pleidleisio yn dweud celwydd am bwy ydynt. Mae cam-bersonadu'n drosedd ddifrifol.

Cofiwch nad yw unigolyn, ar wahan i ddirprwy, yn euog o gambersonadu os byddant yn gwneud cais am bapur pleidleisio dan enw sy'n wahanol i'w henw eu hunain, cyn belled â bod yr enw hwnnw yr un a ddefnyddiwyd ganddynt i gofrestru.

Nid oes gan Swyddogion Llywyddu unrhyw hawl i holi unigolyn y byddant yn eu hamau o gambersonadu. Dim ond y cwestiynnau rhagnodedig y gellir eu gofyn. Rhaid gofyn y cwestiynnau i'r unigolyn cyn iddynt gael papur pleidleisio, ac nid wedi hynny (gweler Atodiad 6a).

Mae'r cwestiynnau rhagnodedig yn pennu ai'r unigolyn sy'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr yw'r etholwr (neu'r rhestr o ddirprwyon os ydynt yn pleidleisio fel dirprwy ar ran rhywun arall), ac os ydynt eisoes wedi pleidleisio yn yr etholiad (neu ar ran yr etholwr hwnnw os ydynt yn ddirprwy).

Os bydd yr unigolyn yn ateb y cwestiynnau'n foddhaol, rhaid rhoi papur pleidleisio iddynt. Dylai'r Swyddog Llywyddu, fodd bynnag, roi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau Lleol am eu hamheuon cyn gynted â phosibl.

Os bydd gwrthdaro, neu bod gennych reswm i amau y bydd gwrthdaro, dylai'r Swyddog Llywyddu ystyried eu diogelwch eu hunain a diogelwch pawb arall sy'n bresennol fel blaenoriaeth. Dylid ystyried ffyrdd eraill o gefnogi ymchwiliad posibl yn y dyfodol, megis cofnodi rhif cofrestru'r ceir a diogelu eitemau a gyffyrddwyd gan unigolyn fu'n rhan o wrthdaro, os yw'n ddiogel gwneud hynny, nes bydd yr heddlu'n cyrraedd.

Os bydd unigolyn yn cael ei arestio ar amheuaeth o gyflawni'r drosedd neu fod â'r bwriad o gyflawni'r drosedd o gambersonadu, ni ddylid atal yr unigolyn hwnnw rhag pleidleisio cyn belled â'u bod wedi ateb y cwestiynnau rhagnodedig yn foddhaol.

Beth sy'n digwydd os bydd ymgeisydd, asiant etholiad neu asiant pleidleisio yn herio pleidleisiwr?

Os bydd ymgeisydd, asiant etholiad neu asiant pleidleisio'n herio pleidleisiwr (drwy'r Swyddog Llywyddu), ni ddylid atal y pleidleisiwr rhag pleidleisio cyn belled â'u bod yn ateb y cwestiynnau rhagnodedig yn foddhaol.

Beth sy'n digwydd os bydd yn ymddangos bod rhywun arall (ar wahan i ddirprwy) wedi pleidleisio ar ran yr etholwr?

Gellir cael achosion prin pan fydd unigolyn yn gofyn am bapur pleidleisio ond yn canfod bod eu henw ar y gofrestr etholwyr wedi'i farcio fel rhywun sydd eisoes wedi pleidleisio. Os bydd yn ymddangos fel pe bai rhywun arall, ar wahan i'w dirprwy penodedig, wedi pleidleisio ar eu rhan, dylid dilyn y broses ar gyfer pleidlais a gyflwynwyd a amlinellir yn Atodiad 6b.

Beth sy'n digwydd os bydd yn ymddangos bod rhywun arall wedi pleidleisio fel dirprwy?

Dylai'r Swyddog Llywyddu ddilyn y drefn ar gyfer cyhoeddi papurau pleidleisio a gyflwynwyd ar gyfer dirprwyon os bydd cofnod y dirprwy ar y rhestr o ddirprwyon a chofnod yr

etholwr ar y gofrestr etholwyr eisoes wedi'u marcio.

Gallai dirprwy ddod i orsaf bleidleisio a chanfod bod y gofrestr wedi cael ei marcio i ddangos bod yr etholwr wedi pleidleisio. Os byddant yn dychwelyd eto yn ddiweddarach ac yn mynnu nad yw'r etholwr wedi pleidleisio, dylai'r Swyddog Llywyddu ddilyn y drefn ar gyfer cyhoeddi papurau pleidleisio a gyflwynwyd ar gyfer dirprwyon (gweler Atodiad 6b).

Dim ond ar ôl gofyn y cwestiynnau rhagnodedig ar gyfer dirprwyon y dylai'r Swyddog Llywyddu gyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd (gweler Atodiad 6a).

Atodiad 5 – Pleidleiswyr gyda chofnod dienw ar y gofrestr

Er mwyn eu gwarchod rhag niwed, bydd rhai etholwyr wedi cofrestru heb gyfeiriad at eu henw na'u cyfeiriad. Bydd ganddynt yr hyn a elwir yn gofnod dienw yn y gofrestr, fydd yn cynnwys eu rhif etholwr a'r llythyren '**N**'. Efallai y bydd gan rai o'r etholwyr hyn lythrennau eraill sy'n golygu eu bod yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau Ewropeaidd (gweler pennod 5 am fanylion).

Os bydd cofrestr yn cynnwys cofnodion dienw, bydd y rhain i'w gweld ar ddiwedd y gofrestr dan y pennawd 'etholwyr eraill'.

Mae'r drefn ar gyfer cyhoeddi papurau pleidleisio i etholwr dienw'n wahanol i etholwyr arferol.

Y drefn ar gyfer cyhoeddi papurau pleidleisio i bleidleiswyr gyda chofnod dienw

Yn wahanol i etholwyr arferol, **rhaid** i etholwyr dienw gael cerdyn pleidleisio ac ni fyddant yn gallu pleidleisio heb un.

- gofynnwch am eu cerdyn pleidleisio - ni fydd yn cynnwys eu henw na'u cyfeiriad ond bydd yn cynnwys eu rhif etholwr
- gwiriwr y gofrestr – '**N**' ddylai'r cofnod fod ar gyfer y rhif etholwr hwnnw, yn hytrach nag enw a chyfeiriad
- rhowch linell syth yn erbyn cofnod yr etholwr ar y gofrestr
- peidiwch â gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr – galwch eu rhif etholwr yn unig
- nodwch rif yr etholwr ar y rhestr rhifau cyfatebol
- rhowch bapur pleidleisio iddynt

Gellir hefyd gofyn y cwestiynau rhagnodedig i etholwr gyda chofnod dienw, ond maent yn wahanol i'r rhai ar gyfer etholwyr arferol (gweler Atodiad 6a).

Beth os bydd etholwr gyda chofnod dienw yn dod i'r orsaf bleidleisio heb gerdyn pleidleisio?

Os byddant wedi anghofio dod â'u cerdyn pleidleisio gyda nhw, gofynnwch iddynt ddod yn ôl i'r orsaf bleidleisio ar adeg arall gyda'u cerdyn pleidleisio. Os byddant yn honni iddynt beidio â derbyn un, neu eu bod wedi ei golli, gofynnwch iddynt gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar unwaith. Os bydd cerdyn pleidleisio newydd yn cael ei gyhoeddi a bod yr etholwr yn dychwelyd i'r orsaf bleidleisio'n ddiweddarach gydag o, rhaid i bapur pleidleisio gael ei roi iddynt yn y modd a ddisgrifir uchod.

Atodiad 6a – Y cwestiynnau rhagnodedig

Gellir gofyn y cwestiynau rhagnodedig i unrhyw etholwr. Fodd bynnag, rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig yn union gywir ac yn bwyllog yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae etholwr (sydd heb benodi dirprwy) yn gwneud cais am bapur pleidleisio ond bod y gofrestr etholwyr yn dangos eu bod eisoes wedi pleidleisio. Yn yr amgylchiadau hyn, hyd yn oed os bydd y cwestiynau'n cael eu hateb yn foddhaol, dim ond papur pleidleisio a gyflwynwyd y mae gan yr etholwr hawl iddo.
- Mae cofnod dirprwy ar y rhestr ddirprwyon eisoes wedi'i farcio, ac mae cofnod yr etholwr ar y gofrestr etholwyr wedi'i farcio hefyd. Wedi ateb y cwestiynau'n foddhaol, dim ond papur pleidleisio a gyflwynwyd y mae gan y dirprwy neu'r etholwr hawl iddo.
- Mae dirprwy bleidleisiwr yn dychwelyd i'r orsaf bleidleisio ar ôl i'w cais i fwrw pleidlais fel dirprwy gael ei wrthod oherwydd bod y gofrestr etholwyr yn dangos bod y pleidleisiwr eisoes wedi pleidleisio'n bersonol (ni fyddai'r rhestr dirprwyon yn cael ei marcio yn yr achos hwn), ac yn mynnu nad yw'r etholwr wedi pleidleisio. Os byddant yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, bydd ganddynt hawl i bapur pleidleisio a gyflwynwyd.
- Mae etholwr yn dweud nad yw eu henw fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr etholwyr. Os bydd yr etholwr, mewn ymateb i'r cwestiynau rhagnodedig, yn gallu cadarnhau bod y cofnod ar y gofrestr yn cyfeirio atynt hwy, gellir rhoi papur pleidleisio cyffredin iddynt.
- Mae staff gorsaf bleidleisio'n amau bod etholwr neu ddirprwy yn cambersonadu. Os bydd yr etholwr, mewn ymateb i'r cwestiynau rhagnodedig, yn gallu cadarnhau bod y cofnod ar y gofrestr yn cyfeirio atynt hwy, gellir cyhoeddi papur pleidleisio cyffredin iddynt.
- Mae ymgeisydd neu etholwr, neu asiant pleidleisio, yn gofyn i'r cwestiynau gael eu gofyn. Os bydd y cwestiynau rhagnodedig yn cael eu hateb yn foddhaol, gellir cyhoeddi papur pleidleisio cyffredin.
- Mae staff gorsaf bleidleisio yn amau bod yr unigolyn yn analluog oherwydd effaith alcohol neu gyffuriau, neu am unrhyw reswm arall. Os bydd y cwestiynau rhagnodedig yn cael eu hateb yn foddhaol, gellir cyhoeddi papur pleidleisio cyffredin.
- Mae'r etholwr wedi'u cofrestru'n gymwys i bleidleisio ond maent yn amlwg dan oed. Os bydd y cwestiynau rhagnodedig yn cael eu hateb yn foddhaol, gellir cyhoeddi papur pleidleisio cyffredin.
- Mae enw etholwr (neu ddirprwy) yn ymddangos ar y rhestr o bleidleiswyr post (neu'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post) ond maent yn dweud na wnaethant gais i gael pleidlais bost. Os bydd yr etholwr (neu'r dirprwy) yn ateb y cwestiynau'n foddhaol, dylid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddynt.
- Mae etholwr (neu ddirprwy) sydd wedi'u henwi ar y rhestr o bleidleiswyr post (neu'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post), yn cyrraedd yr orsaf bleidleisio ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn honni iddynt golli, difetha neu beidio â derbyn eu papur pleidleisio drwy'r post. Os bydd y cwesiynau'n cael eu hateb yn foddhaol, bydd gan yr etholwr (neu'r dirprwy) hawl i gael papur pleidleisio a gyflwynwyd yn unig.

Ni ellir gwneud unrhyw ymholiadau am hawl unrhyw unigolyn i bleidleisio, ar wahân i'r cwestiynau statudol sydd i ddilyn.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu, er gwaethaf unrhyw amheuon posibl, gyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd neu gyffredin, fel sy'n briodol, i unrhyw un sydd wedi ateb y cwestiynau'n gywir. Os bydd unigolyn yn gwrthod ateb y cwestiynau, yna ni ellir cyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd nag un cyffredin. Os bydd yr unigolyn hwnnw'n dychwelyd yn ddiweddarch, yn rhaid i'r Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau rhagnodedig iddo eto.

Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i unigolyn sy'n gwneud cais i bleidleisio fel etholwr

'Ai chi yw'r unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar y gofrestr etholwyr ar gyfer yr etholiad hwn fel (darllen yn uchel y cofnod llawn o'r gofrestr)?'

Os byddant yn ateb 'na', peidiwch â chyhoeddi papur pleidleisio. Os byddant yn ateb 'ie' gofynnwch:

'Ydych chi eisoes wedi pleidleisio yma yn y DU neu mewn Aelod Wladwriaeth arall yn yr etholiad cyffredinol hwn o ASE, ac eithrio fel dirprwy ar ran rhywun arall?'

Os byddant yn ateb 'do' i'r cwestiwn hwn, peidiwch â rhoi papur pleidleisio iddynt. Os bydd yr unigolyn wedi ateb 'ie' i'r cwestiwn cyntaf a 'na' i'r ail gwestiwn, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin iddynt fel bo'n briodol.

Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i unigolyn sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy (ond nid ar ran etholwr gyda chofnod dienw)

Mae'r cwestiynau rhagnodedig ar gyfer dirprwyon wedi'u geirio'n wahanol:

'Ai chi yw'r unigolyn a gofnodir fel (darllen yn uchel yr enw sy'n ymddangos ar y rhestr dirprwyon) ar y rhestr dirprwyon ar gyfer yr etholiad hwn fel un sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran (darllen yn uchel enw'r etholwr ar y gofrestr etholwyr)?'

Os byddant yn ateb 'na', peidiwch â rhoi papur pleidleisio iddynt. Os byddant yn ateb 'ie', gofynnwch:

'Ydych chi eisoes wedi pleidleisio yma neu rhywle arall yn yr etholiad cyffredinol hwn o ASE, fel dirprwy ar ran (darllen enw'r etholwr ar y gofrestr)?'

Os byddant yn ateb 'do' i'r cwestiwn hwn, ni ddylid rhoi papur pleidleisio iddynt. Os byddant yn ateb 'na', gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd neu gyffredin iddynt fel bo'n briodol.

Fodd bynnag, gall y Swyddog Llywyddu, ac os bydd unrhyw ymgeisydd, asiant etholiad neu asiant pleidleisio yn gofyn iddo, bydd rhaid iddo, ofyn cwestiwn arall:

'Ydych chi'n briod, partner sifil, rhiant, nain neu daid, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr neu wyres i (darllenwch enw'r etholwr ar y gofrestr)?'

Os byddant yn ateb 'ydw' i'r cwestiwn hwn (a bod y cwestiynau uchod wedi'u hateb yn foddhaol), yna gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd neu gyffredin iddynt fel bo'n briodol.

Fodd bynnag, os byddant yn ateb 'na', dylech ofyn:

‘Ydych chi eisoes wedi pleidleisio yn y rhanbarth etholiadol hwn ar gyfer yr etholiad cyffredinol hwn o ASE ar ran dau unigolyn nad ydych chi’n briod, partner sifil, rhiant, nain neu daid, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr neu wyres iddynt?’

Os byddant yn ateb ‘do’ i’r cwestiwn hwn, peidiwch â rhoi papur pleidleisio iddynt. Os byddant yn ateb ‘na’ (a bod y cwestiynau uchod wedi’u hateb yn foddhaol), yna dylid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd neu gyffredin iddynt fel bo’n briodol.

Y cwestiynau rhagnodedig i’w gofyn i unigolyn sy’n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr gyda chofnod dienw

‘Ai chi yw’r unigolyn sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd wedi’i gofnodi ar y gofrestr etholwyr gyda’r rhif (darllen y rhif o’r gofrestr)?'

Os byddant yn ateb ‘na’, peidiwch â rhoi papur pleidleisio iddynt. Os byddant yn ateb ‘ie’, gofynnwch:

‘Ydych chi eisoes wedi pleidleisio yma neu’n rhywle arall yn yr etholiad cyffredinol hwn o ASE, fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd wedi’i gofnodi ar y gofrestr etholwyr gyda’r rhif (darllen rhif yr etholwr ar y gofrestr)?’

Os byddant yn ateb ‘do’ i’r cwestiwn hwn, ni ddylid rhoi papur pleidleisio iddynt. Os byddant yn ateb ‘na’, rhaid i chi hefyd ofyn:

‘Ydych chi’n briod, partner sifil, rhiant, nain neu daid, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr neu wyres i’r etholwr sydd wedi’i gofnodi ar y gofrestr etholwyr gyda’r rhif (darllen rhif yr etholwr ar y gofrestr)?’

Os byddant yn ateb ‘ydw’ i’r cwestiwn hwn (a bod y cwestiynau uchod wedi’u hateb yn foddhaol), yna dylid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd neu gyffredin iddynt fel bo’n briodol.

Fodd bynnag, os byddant yn ateb ‘na’, gofynnwch:

‘Ydych chi eisoes wedi pleidleisio yn y rhanbarth etholiadol hwn ar gyfer yr etholiad cyffredinol hwn o ASE ar ran dau unigolyn nad ydych chi’n briod, partner sifil, rhiant, nain neu daid, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr neu wyres iddynt?'

Os byddant yn ateb ‘do’ i’r cwestiwn hwn, peidiwch â rhoi papur pleidleisio iddynt. Os byddant yn ateb ‘na’ (a bod y cwestiynau uchod wedi’u hateb yn foddhaol), yna dylid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd neu gyffredin iddynt fel bo’n briodol.

Y cwestiynau rhagnodedig i’w gofyn i unigolyn sy’n gwneud cais i bleidleisio’n bersonol pan fyddant wedi’u cofrestru fel pleidleisiwr post

Dyma’r cwestiynau rhagnodedig ar gyfer etholwyr sy’n cael eu dangos ar y gofrestr etholwyr fel pleidleiswyr post, ond sy’n honni nad ydynt wedi gwneud cais i bleidleisio drwy’r post neu sy’n cyflwyno eu hunain yn yr orsaf bleidleisio ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn honni eu bod wedi colli neu heb dderbyn y papurau pleidleisio drwy’r post:

‘Wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy’r post?’

Os byddant yn ateb ‘na’, dylid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddynt.

Os byddant yn ateb ‘do’, dylech ofyn:

‘Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy’r post?’

Os byddant yn ateb y cwestiwn yn foddhaol, dylai’r Swyddog Llywyddu gofnodi’r rheswm a rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddynt.

Fodd bynnag, os bydd yr etholwr yn dweud nad ydynt wedi pleidleisio drwy’r post oherwydd iddynt golli neu beidio â derbyn (i gyd neu’n rhannol) eu pecyn pleidleisio drwy’r

post, gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddynt, ond ar ôl 5pm yn unig.

Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i unigolyn sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy pan fydd yn ymddangos eu bod wedi cael papur pleidleisio drwy'r post ar gyfer dirprwy

Dyma'r cwestiynau rhagnodedig ar gyfer dirprwyon a enwir ar y rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post, ond sy'n honni nad ydynt wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu sy'n cyflwyno eu hunain yn yr orsaf bleidleisio ar ôl 5pm ar y diwrnod pleidleisio ac yn honni eu bod wedi colli neu heb dderbyn eu papurau pleidleisio drwy'r post:

'Wnaethoch chi gais i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy?'

Os byddant yn ateb 'na', rhaid rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddynt. Os byddant yn ateb 'do', dylech ofyn:

'Pam nad ydych chi wedi pleidleisio drwy'r post fel dirprwy?'

Os byddant yn ateb y cwestiwn yn foddhaol, dylai'r Swyddog Llywyddu gofnodi'r rheswm a rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddynt.

Fodd bynnag, os bydd yr etholwr yn dweud nad ydynt wedi pleidleisio drwy'r post oherwydd iddynt golli neu beidio â derbyn (i gyd neu'n rhannol) eu pecyn pleidleisio drwy'r post, gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddynt, ond ar ôl 5pm yn unig.

Atodiad 6b – Papurau pleidleisio a gyflwynwyd

Amgylchiadau y dylid rhoi papurau pleidleisio a gyflwynwyd

Darllenwch y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus cyn cyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu wneud yn siŵr mai yn yr amgylchiadau a ragnodir yn unig y bydd papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn cael eu cyhoeddi. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y dylid cyhoeddi papurau pleidleisio a gyflwynwyd:

- mae'n ymddangos ar y gofrestr o etholwyr (neu'r hysbysiad) bod yr etholwr eisoes wedi pleidleisio
- mae cofnod dirprwy ar y rhestr ddirprwyon eisoes wedi'i farcio a/neu mae cofnod yr etholwr a'u penododd yn ddirprwy wedi cael ei farcio
- mae etholwr (neu ddirprwy) sy'n ymddangos ar y rhestr o bleidleiswyr post yn honni nad ydynt wedi gwneud cais am bleidlais bost; mae ganddynt hawl i ofyn am becyn pleidleisio drwy'r post newydd gan y Swyddog Canlyniadau Lleol hyd at 5pm, ond gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynwyd iddynt ar unrhyw adeg os ydynt yn dymuno hynny
- mae hi ar ôl 5pm ac mae etholwr (neu ddirprwy) sy'n ymddangos ar y rhestr pleidleiswyr post yn honni eu bod wedi colli, wedi difetha neu nad ydynt wedi derbyn eu pleidlais bost.

Os bydd papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn cael eu cyhoeddi mewn camgymeriad, rhaid i'r Swyddog Llywyddu wneud nodyn o rifau cyfresol y papurau pleidleisio a gyflwynwyd sydd wedi'u cyhoeddi mewn camgymeriad, a rhoi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau Lleol cyn gynted â phosibl.

Cyn cyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd, dylai'r Swyddog Llywyddu esbonio'r amgylchiadau i'r etholwr (neu'r dirprwy) a rhaid iddynt ofyn y cwestiynau rhagnodedig sy'n berthnasol i'w sefyllfa (gweler Atodiad 6a).

Os bydd y cwestiynau rhagnodedig yn cael eu hateb yn foddhaol, yna dylai'r Swyddog Llywyddu gyhoeddi papur pleidleisio a gyflwynwyd. Yna, dylai'r Swyddog Llywyddu esbonio'r drefn ar gyfer pleidlais a gyflwynwyd i'r etholwr (neu'r dirprwy).

Y drefn ar gyfer cyhoeddi

Ar ôl ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, rhaid ysgrifennu rhif etholwr y pleidleisiwr (gan gynnwys y cyfeirnod rhanbarth pleidleisio) yn erbyn rhif y papur pleidleisio a gyflwynwyd ar y rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd.

Dylech wneud yn siŵr bod marc swyddogol ar y papur pleidleisio a gyflwynwyd, ei blygu, a'i roi i'r etholwr neu'r dirprwy. Rhaid iddynt bleidleisio'n gyfrinachol, plygu'r papur pleidleisio a gyflwynwyd ac yna ei ddychwelyd i'r Swyddog Llywyddu.

Ni ddylid rhoi'r papur pleidleisio a gyflwynwyd yn y blwch pleidleisio. I wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd, dylai'r Swyddog Llywyddu sefyll wrth ymyl y blwch pleidleisio a gorchuddio'r twll.

Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gymryd y papur pleidleisio wedi'i blygu a'i arnodi gydag enw'r pleidleisiwr, ynghyd â'u rhif etholwr (gan gynnwys y cyfeirnod rhanbarth pleidleisio) a'i osod yn yr amlen swyddogol a ddarparwyd.

Rhaid iddynt yna nodi enw a rhif etholwr y pleidleisiwr ar y ‘Rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd’.

Os bydd dirprwy yn pleidleisio ar ran etholwr, dylech arnodi’r papur pleidleisio a gyflwynwyd gydag enw’r dirprwy, ond rhif etholwr yr etholwr. Nodwch rif yr etholwr, ynghyd ag enw’r dirprwy, ar y ‘Rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd’.

Enghraifft o’r ‘Rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd’

List of tendered votes

List of tendered votes

Election in the

Local counting area

Date of Poll

Polling Station

Number on Register of Electors*

Name of voter*

Signed

Presiding Officer

*Where the voter votes as proxy for an elector, enter the name of the voter, but the elector's number

Rhesymau dros gwblhau papur pleidleisio a gyflwynwyd

Ar rai achlysuron, gallai etholwyr ofyn pam eu bod yn cael cynnig papur pleidleisio a gyflwynwyd. Er nad yw papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn cael eu cynnwys yn y broses ddilysu a’r cyfrif, mae papur pleidleisio a gyflwynwyd yn rhoi tystiolaeth bod pleidleisiwr yn bryderus am weithrediad yr etholiad ar adeg y pleidleisio, yn hytrach nag ar ôl i’r canlyniad gael ei gyhoeddi. I'r perwyl hwnnw, papurau pleidleisio a gyflwynwyd yw’r cam cyntaf wrth wneud cwyn am y broses etholiadol. Os na fydd etholwr yn cymryd y cam hwnnw, gallai olygu nad oes cofnod ffurfiol eu bod wedi ceisio, ond wedi methu, â bwrw eu pleidlais.

Hefyd, pryd bynnag y bydd papurau pleidleisio a gyflwynwyd yn cael eu cyhoeddi, bydd enw a rhif etholwr y pleidleisiwr yn cael eu nodi ar y rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd. Mae’r rhestr hon yna’n galluogi’r Swyddog Canlyniadau i sefydlu a oes unrhyw batrymau o gambersonadu posibl ar draws eu hardal. Er enghraifft, gallai nifer sylweddol o gofnodion ar y rhestr fod yn arwydd o gamymddygiad trefnus, eang.

Atodiad 7 – Diogelwch yn yr orsaf bleidleisio

Mae'r Swyddog Llywyddu'n gyfrifol am ddiogelwch yn yr orsaf bleidleisio. Mae pleidleiswyr yn disgwyl i orsafoedd pleidleisio gael eu rhedeg yn drefnus a phwyllog.

Cadw trefn

Rhaid i Swyddogion Llywyddu gynnal trefn yn yr orsaf bleidleisio. Mae ganddynt yr awdurdod i orchymyn i rywun gael eu symud o'r orsaf bleidleisio. Serch hynny, rhaid caniatáu i bleidleiswyr cymwys bleidleisio cyn iddynt gael eu symud oddi yno. Dylai Swyddog Llywyddu sy'n gorchymyn i rywun gael eu symud gofnodi manylion y digwyddiad a'u pasio ymlaen i'r Swyddog Canlyniadau Lleol.

Nid oes diffiniad cyfreithiol am gwmpas yr orsaf bleidleisio, ond fan leiaf, mae'n cynnwys yr ystafell lle bydd y pleidleisio'n digwydd.

Aflonyddwch neu ddigwyddiadau difrifol a gohirio'r pleidleisio

Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol wedi hysbysu'r heddlu am leoliad y gorsafoedd pleidleisio. Efallai y bydd swyddogion yr heddlu'n cael eu hanfon ar ddyletswydd i orsafoedd pleidleisio a gallant ymweld â hwy yn ystod y dydd. Os bydd unrhyw achos o gamymddwyn yn yr orsaf bleidleisio yn ystod y dydd, cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau Lleol i'w hysbysu am y sefyllfa. Os bydd angen, galwch yr heddlu i ddelio â'r broblem.

Os bydd aflonyddwch neu ddigwyddiad difrifol, e.e. bygythiad bom, tân, llifogydd ac ati, gellir gofyn i'r Swyddog Llywyddu wagio'r adeilad, neu gall benderfynu gwneud hynny ei hun. Os bydd y gwasanaethau argyfwng yn gofyn i'r adeilad gael ei wagio, rhaid gwneud hynny.

Rhowch wybod i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar unwaith a cheisiwch gael arweiniad am gamau pellach i'w cymryd.

Peidiwch byth â pheryglu diogelwch personol y pleidleiswyr na gweddill tîm yr orsaf bleidleisio, na rhoi unigolyn mewn perygl o gael anaf. Os bydd yn bosibl gwneud hynny heb beryglu diogelwch personol, gellir cario holl ddeunydd sensitif yr etholiad (y blychau pleidleisio, papurau pleidleisio, cofrestr etholwyr ac ati) o'r adeilad a'u cadw yng ngofal staff yr orsaf bleidleisio.

Os byddwch yn cael eich gorfodi i adael yr adeilad, ceisiwch sefydlu gorsaf bleidleisio dros dro mewn lleoliad sy'n ddigon pell oddi wrth yr aflonyddwch neu'r digwyddiad difrifol. Hyd yn oed os bydd y pleidleisio wedi cael ei ohirio am gyfnod, mae'n rhaid i'r orsaf bleidleisio gau am 10pm. Fodd bynnag, dylid gwneud cofnod o'r cyfnod amser nad oedd yr orsaf bleidleisio'n gallu gweithredu.

Yn yr achosion mwyaf eithafol, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn caniatau i'r Swyddog Llywyddu ohirio'r pleidleisio nes y diwrnod canlynol. Os bydd y pleidleisio'n cael ei ohirio, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn trefnu i ddeunydd yr etholiad gael eu casglu.

Ni ddylai Swyddogion Llywyddu gymryd y penderfyniad i ohirio'r pleidleisio ar eu pen eu hun.

Delio gyda sefyllfaoedd anodd

Mae'n bosibl i staff yr orsaf bleidleisio ddod wyneb yn wyneb â sefyllfaoedd anodd yn ystod y diwrnod pleidleisio, neu wynebu ymddygiad bygythiol.

Gallai'r camau canlynol helpu staff yr orsaf bleidleisio mewn sefyllfaoedd alla fod yn anodd neu'n heriol:

- **Gwrando** ar y pleidleisiwr – mae'n arfer da edrych ar yr unigolyn wrth iddynt siarad, gan ddangos diddordeb.
- **Deall** – gadewch i'r unigolyn wybod bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddeall y broblem o'u safbwynt hwy – mae hyn yn pwysleisio bod penderfyniad deallus yn cael ei ystyried.
- **Archwilio** - gofynnwch i'r unigolyn oes yna unrhyw wybodaeth bellach berthnasol y gallant ei roi i chi a allai helpu'r broses.
- **Crynhoi** – rhowch eich hymateb a'r rheswm amdano – peidiwch â chychwyn ffrae.

Delio gyda phobl sy'n analluog (o ganlyniad i alcohol neu gyffuriau)

Ni ellir gwrthod rhoi papur pleidleisio i etholwr sy'n analluog o ganlyniad i alcohol neu gyffuriau, ond os bydd y Swyddog Llywyddu neu asiant etholiad yn amau bod yr unigolyn yn analluog i bleidleisio, gellir gofyn y cwestiynau rhagnodedig (gweler Atodiad 6a). Os bydd yr etholwr yn methu ag ateb yn gywir, rhaid gwrthod rhoi papur pleidleisio iddynt. Os bydd yr etholwr hwnnw'n dod yn ôl yn ddiweddarach ac yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, rhaid rhoi papur pleidleisio iddynt.

Atodiad 8 – Cyfarwyddyd ar rifwyr, y cyfryngau a pholau ymadael

Rhifwyr

Mae rhifwyr yn gweithio i bleidiau gwleidyddol. Byddant yn sefyll y tu allan i orsafoedd pleidleisio neu fannau pleidleisio ac yn cofnodi rhif etholwr y pleidleiswyr sydd wedi pleidleisio. Drwy adnabod etholwyr sydd heb bleidleisio a throsglwyddo'r wybodaeth hon i'r blaid, mae rhifwyr yn chwarae rôl bwysig ac allweddol yn yr etholiad. Gall y pleidiau yna gysylltu â'r pleidleiswyr nad ydynt eto wedi bod yn pleidleisio, yn ystod y diwrnod pleidleisio, er mwyn eu hannog i fynd i fwrw pleidlais.

Ni ddylid cael mwy nag un rhifwr ar y tro mewn gorsaf bleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd unigol neu blaid wleidyddol. Os bydd man pleidleisio'n cynnwys mwy nag un orsaf bleidleisio, gyda mynedfeydd ar wahân, gall fod yn briodol gael rhifwyr ym mhob mynedfa, ond ni ddylid cael mwy nag un i bob ymgeisydd unigol neu blaid.

Nid oes gan rifwyr unrhyw statws cyfreithiol ac mae gan bleidleiswyr yr hawl i wrthod rhoi gwybodaeth iddynt. Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol neu eu staff roi canllawiau pellach am weithgarwch rhifwyr.

Rhaid i rifwyr:

- aros y tu allan i'r orsaf bleidleisio drwy'r adeg
- mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio i fwrw eu pleidlais eu hunain yn unig, neu i bleidleisio fel dirprwy neu fod yn gydymaith i bleidleisiwr anabl.
- cydymffurfio bob amser â chyfarwyddiadau'r Swyddog Canlyniadau Lleol a'r Swyddog Llywyddu

Ni ddylai rhifwyr:

- allu gweld neu glywed beth sy'n digwydd y tu mewn i'r orsaf bleidleisio
- amharu, rhwystro neu fygwth pleidleiswyr ar eu ffordd i mewn neu allan o'r orsaf bleidleisio
- mynnu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â rhif etholwr y pleidleisiwr, eu henw neu eu cyfeiriad
- gofyn i bleidleiswyr fynd yn ôl i mewn i'r orsaf bleidleisio i gael eu rhif etholwr
- cael trafodaethau gyda phleidleiswyr a allai arwain at gyhuddiadau o ddylanwad gormodol (e.e. bwriadau pleidleisio, cysylltiadau â phlaid neu ymgyrchoedd pleidiau)
- arddangos unrhyw ddeunydd ymgyrchu sydd o blaid neu yn erbyn unrhyw blaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol ar wahân i roséd.

Gall rhifwyr:

- ofyn i bleidleiswyr am wybodaeth wrth iddynt fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio neu ei gadael
- arddangos rhoséd lliw yn arddangos enw'r ymgeisydd unigol neu'r blaid wleidyddol y maent yn gweithio iddynt; ni ddylai'r rhoséd gynnwys slogan ac ni ddylai fod yn rhy fawr.

Dylai'r Swyddog Llywyddu wirio gweithgarwch y rhifwyr o bryd i'w gilydd, a gwneud yn siŵr nad ydynt yn rhwystro'r fynedfa nac yn atal pleidleiswyr rhag dod i mewn i'r orsaf bleidleisio.

Y cyfryngau

Nid oes gan gynrychiolwyr y cyfryngau unrhyw hawl i fynd i mewn i orsaf bleidleisio, ac eithrio fel pleidleiswyr. Ni ddylid caniatau iddynt ffilmio na chyfweld pleidleiswyr yn yr orsaf bleidleisio. Os bydd criw ffilmio'n ffilmio neu fod cyfweliadau'n cael eu cynnal y tu allan i'r orsaf bleidleisio, gwnewch yn siŵr nad yw pleidleiswyr yn cael eu hatal na'u poeni ar eu ffordd i bleidleisio ac nad yw mynedfeydd yr orsaf bleidleisio'n cael eu rhwystro.

Polau ymadael

Gallai cwmnïau arolygon barn cyhoeddus gael eu comisiynu i drefnu pôl ymadael ar gyfer yr etholiadau hyn. Efallai y bydd Swyddogion Llywyddu wedi cael gwybod gan y Swyddog Canlyniadau Lleol os bydd cwmni arolwg barn yn bwriadu cynnal pôl ymadael y tu allan i'r orsaf bleidleisio. Os hynny, gwnewch yn siŵr nad yw'r cyfwelwyr yn rhwystro nac yn dod i mewn i fynedfa'r orsaf bleidleisio.

Atodiad 9 – Iechyd a Diogelwch

Iechyd a Diogelwch staff yr orsaf bleidleisio a'r etholwyr

Rhaid i Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio fod yn ymwybodol o unrhyw beryglon posibl i iechyd drwy gydol y diwrnod pleidleisio. Mae hyn yn gofyn am archwiliad o'r adeilad cyfan ac o'r ardal yn union y tu allan. Os bydd peryglon yn cael eu canfod, bydd angen ystyried cymryd camau i adfer y sefyllfa. Siaradwch â'r daliwr allweddi yn gyntaf, os yn briodol a phryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Os bydd damwain yn digwydd i unrhyw unigolyn yn yr orsaf bleidleisio, rhaid cadw cofnod o'r digwyddiad a dylid cofnodi'r wybodaeth ganlynol:

- enw a chyfeiriad llawn yr unigolyn
- amser y ddamwain
- lleoliad y ddamwain
- manylion cryno am y ddamwain
- tystiolaeth o niwed neu ddifrod
- enw a chyfeiriad unrhyw dyst
- amgylchiadau cyffredinol ar y pryd
- camau a gymerwyd gan staff yr orsaf bleidleisio
- enw'r doctor neu'r parafeddyg a alwyd
- manylion unrhyw dderbyniad i ysbyty

Dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar unwaith.

Codi eitemau trwm

Wedi'u rhestru isod mae rhai pwyntiau allai, o gael ei dilyn, helpu lleihau'r perygl o niwed i'r rhai sy'n ymwneud â gwaith trin â llaw:

- Cyn ceisio codi neu symud unrhyw eitem, profwch ei bwysau drwy ei roi ar ogwydd i bennu pa mor drwm yw'r llwyth a lleoliad ei ganolbwynt disgyrchiant.
- Cyn mynd ati i godi neu symud eitem, gwnewch yn siŵr bod yr ardal rydych chi'n gweithio ynddi yn glir ac yn rhydd o unrhyw rwystrau.
- Sicrhewch fod gennych chi afael gadarn, gyfforddus ar yr eitem cyn ei godi.
- Sicrhewch fod eich traed yn gadarn ar y llawr cyn codi'r eitem.
- Wrth godi, cadwch eich pen i fyny, eich cefn yn syth, eich traed ychydig ar wahân ac os yn bosibl, codwch o'ch pengliniau gan ddefnyddio cyhyrau eich coesau.
- Cadwch yr eitem rydych chi'n ei godi mor agos â phosibl at eich corff.
- Peidiwch â llwytho eitemau mor uchel fel bod eich llwyth allan o gydbwysedd.
- Peidiwch â llwytho eitemau mor uchel fel na allwch weld i ble rydych chi'n mynd.
- Os na allwch chi godi neu symud y llwyth ar eich pen eich hun, gofynnwch am gymorth.
- Helpwch eraill i godi neu symud llwyth os bydd rhywun yn gofyn i chi.

Atodiad 10 – Cwestiynau cyffredin a ofynnir i staff gorsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio

C. Pam y mae angen i chi ysgrifennu fy rhif etholwr wrth ymyl rhif fy mhapur pleidleisio? A yw hyn yn golygu nad yw fy mhleidlais yn gyfrinachol?

A. Mae'r gofyniad i ysgrifennu'r rhif etholwr gyferbyn â rhif y papur pleidleisio a roddir i'r etholwr hwnnw ar y rhestr o rifau cyfatebol wedi'i gynnwys yn y rheolau etholiadol. Mae'r system hon yn ei hanfod yn fersiwn wedi'i diweddaru o system sy'n dyddio o Ddeddf Pleidleisio 1872, a gyflwynwyd i osgoi'r posibilrwydd y byddai papurau pleidleisio ffug yn cael eu defnyddio a chynorthwyo i ddatgelu twyll honedig.

Mae'n glir, os yw'r papurau pleidleisio wedi'u rhifo, ei bod yn anoddach o lawer i berson diegwyddor roi copïau o bapurau pleidleisio swyddogol yn y blwch pleidleisio. Os oes gweithred dwyllodrus wedi digwydd, byddai'n bosibl datgelu'r drosedd drwy gyfeirio at y rhestr o rifau cyfatebol.

Ceir mesur diogelu i atal rhifau'r papurau pleidleisio ar y rhestr o rifau cyfatebol rhag cael eu cysylltu â'r papurau pleidleisio a farciwyd. Ar ddiwedd y bleidlais, bydd y Swyddog Llywyddu yn yr orsaf bleidleisio yn rhoi'r rhestr o rifau cyfatebol mewn amlen seliedig. Yna, eir â'r amlen seliedig at y Swyddog Canlyniadau Lleol. Ar ôl i'r cyfrif ddigwydd, bydd y papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd hefyd yn cael eu selio. Yr unig bryd y gellir agor y pecynnau seliedig yw ar orchymyn barnwr o ganlyniad i ddeiseb etholiadol neu er hyrwyddo ymchwiliad i drosedd etholiadol honedig. Hyd yn oed wedyn, anaml iawn y bydd y dogfennau yn cael eu harchwilio ac eithrio mewn achosion lle bo twyll neu gambersonadu (h.y. rhywun yn pleidleisio'n anghyfreithlon ar ran rhywun arall) yn cael eu hymchwilio.

Oherwydd y mesurau diogelu uchod, mae bron â bod yn amhosibl i unrhyw berson fod mewn sefyllfa lle gall gysylltu'r etholwr â phapur pleidleisio penodol. Am y rheswm hwnnw, gall etholwyr fod yn hyderus bod y bleidlais yn aros yn gyfrinachol. Nid oes unrhyw reswm i etholwyr ofni y gallai'r ffordd y maent wedi pleidleisio gael ei datgelu, ac eithrio dan yr amgylchiadau arbennig iawn a amlinellir uchod.

C. Nid oeddwn wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post ac nid oeddwn wedi derbyn pecyn pleidleisio drwy'r post – a allwch chi fy nghynghori ynghylch yr hyn y dylwn ei wneud?

A. Yma yn yr orsaf bleidleisio, gellir rhoi papur pleidleisio a gyflwynir i chi ar unrhyw adeg. Ni fydd yn cael ei ystyried ond os bydd canlyniad yr etholiad yn cael ei gwestiynu.

Fodd bynnag, gallwch hefyd wneud cais i swyddfa'r Swyddog Canlyniadau Lleol am becyn pleidleisio drwy'r post newydd, y gellir ei roi hyd at 5pm heddiw. Gall y staff yn y swyddfa etholiadol eich cynghori ynghylch yr hyn y dylech ei wneud a pha ddull adnabod y bydd angen i chi ddod ag ef gyda chi. Sicrhewch eich bod yn cysylltu â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd os hoffech newid eich trefniadau pleidleisio drwy'r post, fel y byddwch yn cael eich tynnu oddi ar y rhestr o bleidleiswyr post ar gyfer unrhyw etholiadau yn y dyfodol.

C. Rwyf wedi anghofio postio fy mhleidlais bost. A allaf bleidleisio yn bersonol yma yn yr orsaf bleidleisio?

A. Ni allwn roi papur pleidleisio cyffredin i chi yma yn yr orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, nid oes angen i chi bostio eich pleidlais bost er mwyn pleidleisio: gallwch ddanfon eich pleidlais bost â llaw i unrhyw orsaf bleidleisio yn y rhanbarth etholiadol neu gallwch drefnu bod rhywun arall yn gwneud hyn drosoch chi. Mae'r gorsafoedd pleidleisio yn cau am 10pm. Fel arall, gallwch fynd â'ch pleidlais bost i'r swyddfa etholiadol yn y cyngor lleol.

C. Nid yw fy mhleidlais bost wedi cyrraedd eto – beth allaf ei wneud?

A. Gellir rhoi papur pleidleisio newydd i chi os gallwch gyrraedd y swyddfa etholiadol cyn 5pm heddiw. Bydd angen i chi ddod â rhyw fath o ddull adnabod gyda chi. Bydd y staff yn y swyddfa etholiadol yn gallu darparu rhagor o wybodaeth am y drefn hon a gallant roi gwybod i chi ba ddulliau adnabod sy'n dderbyniol.

(*Ar ôl 5pm*) Mae gennych hawl i dderbyn papur pleidleisio a gyflwynir. Os ydych ar y gofrestr ar gyfer yr orsaf bleidleisio hon a'ch bod yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, byddwn yn gallu rhoi papur i chi.

C. Mae fy mhleidlais bost wedi cyrraedd, ond nawr rwyf wedi colli fy mhapur pleidleisio. Beth allaf ei wneud?

A. Gellir rhoi papur pleidleisio newydd i chi os gallwch gyrraedd y swyddfa etholiadol cyn 5pm ar ddiwrnod pleidleisio. Bydd angen i chi ddod ag unrhyw ddarnau o'ch pecyn pleidleisio drwy'r post sydd gennych o hyd a rhyw fath o ddull adnabod gyda chi. Bydd y staff yn y swyddfa etholiadol yn gallu darparu rhagor o wybodaeth am y drefn hon a gallant roi gwybod i chi ba ddulliau adnabod sy'n dderbyniol.

(*Ar ôl 5pm)* Mae gennych hawl i dderbyn papur pleidleisio a gyflwynir. Os ydych ar y gofrestr ar gyfer yr orsaf bleidleisio hon a'ch bod yn ateb y cwestiynau rhagnodedig yn foddhaol, byddwn yn gallu rhoi papur i chi.

C. Rwyf wedi derbyn fy mhleidlais bost ond nawr rwyf wedi newid fy meddwl ac rwyf eisiau pleidleisio yn bersonol yn yr orsaf bleidleisio. A allaf ganslo fy mhleidlais bost?

A. Na allwch – unwaith y byddwch wedi cael pleidlais bost, mae'n rhaid i chi ei defnyddio os ydych eisiau pleidleisio yn yr etholiad hwn; ni allwch gael papur pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Fodd bynnag, gallwch ddanfon eich pleidlais bost a gwblhawyd, wedi'i selio yn yr amlenni a ddarperir, â llaw i'ch gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod pleidleisio. Os ydych eisiau canslo eich pleidlais bost ar gyfer etholiadau yn y dyfodol, cysylltwch â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

C. Beth ydych chi'n ei olygu wrth ddweud nad wyf wedi fy nghofrestru – roeddwn i'n meddwl bod pawb yn gallu pleidleisio?

A. Mae angen i chi fod ar y gofrestr etholwyr er mwyn pleidleisio. Er mwyn cael eich cynnwys ar y gofrestr a bod yn gallu pleidleisio mewn etholiadau yn y dyfodol, bydd angen i chi wneud cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Os ydych yn sicr eich bod wedi dychwelyd ffurflen gofrestru, cysylltwch â'r swyddfa cofrestru etholiadol.

C. Mae fy ngŵr wedi cael damwain yn y gwaith ac mae wedi'i ruthro i'r ysbyty. Mae'n daer am bleidleisio – a oes modd gwneud unrhyw beth?

A. Oes, ond dim ond os yw'r argyfwng meddygol wedi digwydd ar ôl 5pm ddydd Mercher 27 Mai a'i fod yn gallu gwneud cais i benodi dirprwy i bleidleisio ar ei ran cyn 5pm heddiw. Bydd y staff yn y swyddfa etholiadol yn gallu rhoi rhagor o fanylion i chi am y drefn hon.

C. Mae'r papur pleidleisio hwn yn edrych yn wahanol i'r un a ddefnyddiais yn yr etholiad cyffredinol diwethaf ar gyfer Senedd y DU. Sut y mae ASEau yn cael eu hethol?

A. Mae ASEau sy'n cynrychioli'r DU yn cael eu hethol drwy fath o gynrychiolaeth gyfrannol

rhestr gaeëdig, sy'n defnyddio fformiwla fathemategol, a elwir d'Hondt, i ddosbarthu seddau (i gael esboniad manwl, gweler Atodiad 11).

Atodiad 11 – System ar gyfer ethol Aelodau o Senedd Ewrop

Yn etholiadau Senedd Ewrop, gall etholwyr bleidleisio naill ai dros blaid wleidyddol gofrestredig â rhestr o ymgeiswyr neu dros ymgeisydd unigol. Mae papurau pleidleisio yn cael eu marcio drwy roi un 'X' yn y blwch priodol. Mae ASEau sy'n cynrychioli'r DU yn cael eu hethol drwy fath o gynrychiolaeth gyfrannol rhestr gaeëdig, sy'n defnyddio fformiwla fathemategol, a elwir d'Hondt, i ddosbarthu seddau.

D'Hondt

Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn adio'r holl bleidleisiau a fwriwyd o fewn y rhanbarth cyn cymhwyso fformiwla d'Hondt er mwyn dyrannu seddau:

Cyfanswm y pleidleisiau a dderbyniwyd

Nifer y seddi sydd eisoes wedi'u dyrannu i restr/unigolyn yn y rhanbarth etholiadol + 1

Mae hyn yn golygu:

- Bod y sedd gyntaf yn cael ei dyrannu i'r ymgeisydd unigol neu restr y blaid gofrestredig sydd wedi derbyn y nifer mwyaf o bleidleisiau a fwriwyd yn y rhanbarth etholiadol.
- Bod yr ail sedd a seddau dilynol yn cael eu dyrannu yn yr un ffordd ac eithrio, lle bo sedd eisoes wedi'i dyrannu i blaid gofrestredig, bydd eu cyfanswm gwreiddiol yn cael ei rannu ag un yn ogystal â nifer y seddau a ddyrannwyd eisoes i'r blaid honno / unigolyn hwnnw yn y rhanbarth: er enghraifft, bydd cyfanswm gwreiddiol plaid y dyrannwyd un sedd iddi eisoes, yn cael ei rannu â dau.
- Ni chynhwysir unrhyw ymgeisydd unigol y dyrannwyd sedd iddo/iddi neu unrhyw blaid y dyrannwyd cymaint o seddau iddi â nifer yr ymgeiswyr ar ei rhestr yng nghamau dilynol y cyfrifiad.
- Bydd y seddau y mae hawl gan bob plaid wleidyddol eu derbyn yn cael eu llenwi gan yr ymgeiswyr yn y drefn y mae eu henwau yn ymddangos ar restr eu plaid.

Yn yr enghraifft weithredol yn Nhabl 1 drosodd, mae pedair sedd ar gael ac mae'r rhain wedi'u dyrannu fel a ganlyn:

Sedd 1 – Enillodd Plaid A y nifer mwyaf o bleidleisiau (340,000) ac felly mae hawl ganddi i dderbyn y sedd gyntaf sydd ar gael.

Sedd 2 - Mae dyraniad y sedd nesaf yn cael ei gyfrifo drwy rannu cyfanswm y pleidleisiau a dderbyniodd pob rhestr â nifer y seddau a ddyrannwyd iddi eisoes yn y rhanbarth, yn ogystal ag un. O ganlyniad, mae'n rhaid rhannu cyfanswm gwreiddiol Plaid A â dau, tra bod cyfansymiau'r pleidiau eraill yn dal i gael eu rhannu ag un. Mae Plaid B, gyda'i chyfanswm o 280,000, yn ennill yr ail sedd.

Sedd 3 – Er mwyn cyfrifo dyraniad y drydedd sedd, mae cyfanswm pleidleisiau Plaid A a Phlaid B yn cael eu rhannu â dau, tra bod cyfansymiau Plaid C a Phlaid Ch yn dal i gael eu rhannu ag un. Mae hyn yn arwain at ddyrannu'r sedd hon i Blaid A gyda'i chyfanswm o 170,000.

Sedd 4 – Gan fod gan Blaid A ddwy sedd nawr, mae ei chyfanswm gwreiddiol o 340,000 yn cael ei rannu â thri. Y tro hwn, mae Plaid C, gyda chyfanswm o 160,000, yn ennill y bedwaredd sedd, sef yr un olaf.

Tabl 1: Enghraifft weithredol

	Plaid A	Plaid B	Plaid C	Plaid Ch	Plaid D
Pleid-leisiau	340,000	280,000	160,000	60,000	15,000
Sedd 1	**340,000**	280,000	160,000	60,000	15,000
Sedd 2	170,000	**280,000**	160,000	60,000	15,000
Sedd 3	**170,000**	140,000	160,000	60,000	15,000
Sedd 4	113,333	140,000	**160,000**	60,000	15,000
Cyfan-swm y seddau	**2**	**1**	**1**	**0**	**0**

Atodiad 12 – Rhestr osod yr orsaf bleidleisio

Wedi'i wirio

Y tu allan i'r orsaf bleidleisio

Mynedfeydd, allanfeydd a dynesfeydd

A yw'r arwyddion wrth ddynesu yn glir ac a yw'r etholwyr yn gallu gweld yn rhwydd lle mae'r orsaf bleidleisio? ☐

Oes yna fannau parcio wedi'u cadw i bobl anabl? ☐

Oes yna fannau parcio yn agos i fynedfa'r orsaf bleidleisio? ☐

Arwyddion

Ydych chi wedi sicrhau bod unrhyw fynedfa wahanol ar gyfer cadeiriau olwyn wedi'i harwyddo'n dda, ac y gall rhywun mewn cadair olwyn eu darllen yn rhwydd? ☐

Hysbysiadau swyddogol

A yw'r hysbysiad 'Canllawiau i bleidleiswyr' ar ddangos y tu mewn a'r tu allan i'r orsaf bleidleisio ac yn amlwg i bawb (gan gynnwys unrhyw rai a ddarparwyd mewn ieithoedd a fformatau gwahanol)? ☐

A yw'r hysbysiad 'Rhowch un groes yn unig ar y papur pleidleisio. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio, neu mae posibl na fydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif', ar ddangos ym mob bwth pleidleisio yn rhoi gwybodaeth am sut i bleidleisio (gan gynnwys unrhyw rai a ddarparwyd mewn ieithoedd a fformatau gwahanol)? ☐

Mynediad gwastad

Oes yna ramp addas yn glir o unrhyw rwystrau? ☐

Mynedfeydd

A yw'r drysau dwbl wedi'u gwirio i sicrhau mynediad rhwydd i bawb? ☐

A yw'r drws ar gyfer unrhyw fynedfa wahanol i'r anabl wedi'i arwyddo'n gywir? ☐

Y tu mewn i'r orsaf bleidleisio

A yw'r orsaf bleidleisio wedi'i gosod i wneud y defnydd gorau o'r lle? ☐

A yw'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'r goleuadau a'r golau naturiol sydd ar gael? ☐

	Wedi'i wirio

Bythau pleidleisio/ blychau pleidleisio

A yw'r blwch pleidleisio wedi'i osod yn union gerllaw'r Swyddog Llywyddu?	☐
A yw'r holl flychau pleidleisio wedi'u selio'n gywir?	☐
All defnyddiwr cadair olwyn gyrraedd y blwch pleidleisio'n rhwydd?	☐
All defnyddiwr cadair olwyn ddefnyddio'r bwth pleidleisio'n rhwydd?	☐
A ydynt wedi'u codi'n gywir ac mewn lleoliad sy'n gwneud y defnydd gorau o'r goleuadau a'r golau naturiol?	☐
All y Swyddog Llywyddu a'r Clerc Pleidleisio eu harsylwi'n glir?	☐
Oes yna bensiliau ym mhob bwth wedi'u miniogi ac yn barod i'w defnyddio?	☐
A yw'r llinyn sy'n dal y pensiliau'n ddigon hir i faint y papurau pleidleisio ac i ganiatáu defnydd gan bleidleiswyr llaw chwith a llaw dde?	☐

Papur pleidleisio print bras a sampl llaw

A yw'r papur pleidleisio print bras i'w weld yn glir i'r pleidleiswyr?	☐
A yw'r papur pleidleisio sampl llaw ar gael ac i'w weld yn glir i bleidleiswyr?	☐

Templed cyffyrddol

A yw'r templed cyffyrddol ar gael ac i'w weld yn glir?	☐
A yw'r holl staff yn gwybod sut i'w ddefnyddio?	☐

Papurau pleidleisio

A yw'r papurau pleidleisio y rhai cywir ar gyfer yr orsaf bleidleisio ac a ydynt wedi'u rhifo'n gywir a'u pentyrru mewn trefn?	☐

Rhestr rhifau cyfatebol

A yw rhifau'r papurau pleidleisio ar y rhestr rhifau cyfatebol wedi'u hargraffu mewn trefn rifol?	☐
A yw'r rhifau papurau pleidleisio a argraffwyd ar y rhestr rhifau cyfatebol yn cyd-fynd â'r rhai ar y papurau pleidleisio?	☐

Sut i gysylltu â ni

Ein Prif Swyddfa

The Electoral Commission
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0500
Ffacs:020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Swyddfeydd Datganoledig

The Electoral Commission
Scotland Office
28 Thistle Street
Edinburgh EH2 1EN
Ffôn: 0131 225 0200
Ffacs:0131 225 0205
Ffôn testun: 18001 0131 225 0200
infoscotland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE
Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs:029 2034 6805
Ffôn testun: 18001 029 2034 6800
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

The Electoral Commission
Northern Ireland Office
Seatem House
28–32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN
Ffôn: 028 9089 4020
Ffacs:028 9089 4026
Ffôn testun: 18001 028 9089 4020
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Swyddfeydd Lloegr

The Electoral Commission
North of England Office
York Science Park
IT Centre
Innovation Way
Heslington
York YO10 5DG
Ffôn: 01904 567990
Ffacs:01904 567719
Ffôn testun: 18001 01904 567990
north@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Midlands Office, No 2 The Oaks
Westwood Way, Westwood Business Park
Coventry CV4 8JB
Ffôn: 02476 820086
Ffacs:02476 820001
Ffôn testun: 18001 02476 820086
midlands@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Eastern and South East Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0600
Ffacs:020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0600
south@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
London Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0689
Ffacs : 020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0689
london@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
South West Office
Regus, 1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS
Ffôn: 01392 314617
Ffacs:01392 314001
Ffôn testun: 18001 01392 314617
southwest@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW

Ffôn 020 7271 0500
Ffacs 020 7271 0505
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Rhif archebu: EPEGB09G002W

I gysylltu â'n swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr, gweler y tu mewn i'r clawr cefn am fanylion.

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw hygrededd y broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Mae democratiaeth yn cyfrif